

Gwerth Gweithgareddau Awyr Agored Antur i Ogledd Orllewin Cymru



Ymgynghorwyr: Newidiem, Cardiff

Ymchwil a gomisiynwyd gan Eryri-Bywiol
mewn partneriaeth â: WDA, Gwynedd, Medrau Gweithredol (Skills Active), WCA



SkillsActive



RHAN-ARIENNIR Y PROSIECT
GAN YR UNDEB EWROPEAIDD
Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Snowdonia-Active
Yr Hen Ysgol, Brynrefail
Caernarfon, Gwynedd, LL55 3NR
tel: 0870 922 0554
info@snowdonia-active.com
www.snowdonia-active.com

1	Crynodeb Gweithredol	3
2	Cyflwyniad	5
2.1	Newidiadau ym maes twristiaeth	5
2.2	Twristiaeth Gweithgareddau Antur	5
2.3	Prif Ganfyddiadau	7
2.4	Casgliadau	13
2.5	Strwythur gweddill yr adroddiad	14
3	Methodoleg yr Ymchwil	15
3.1	Amlinelliad o'r dull a fabwysiadwyd	15
3.2	Methodoleg Ymchwil Feintiol	15
3.2.1	Datblygu'r Holiaduron	15
3.2.2	Dethol Busnesau i'w Holi	15
3.2.3	Cwestiynau'r Holiaduron	15
3.2.4	Cynnal yr Arolygon	15
3.2.5	Cyfradd Ymateb	16
3.3	Methodoleg Ymchwil Feintiol	16
4	Yr Ymateb i'r Arolwg	17
4.1	Proffil o'r rhai a Holwyd	17
4.1.1	Busnesau Twristiaeth Antur	17
4.1.2	Astudiaeth Achos 1:	18
	Y Ganolfan Fynydda Gristnogol (CMC), Harbwr Pensarn	18
4.2	Cyflogaeth o fewn y sector	20
4.2.1	Astudiaeth Achos 2	24
	Canolfan Conwy. Ynys Môn	24
4.3	Anghenion o ran gwella sgiliau	27
4.4	Hyfforddiant swydd-gysylltiol yn ystod y 12 mis diwethaf	31
4.5	Y dulliau hyfforddi mwyaf effeithiol	34
4.5.1	Astudiaeth Achos 3	35
	Plas Menai	35
4.6	Adnoddau hyfforddi cwmnïau	39
4.6.1	Astudiaeth Achos 4	40
	Llanberis Surflines	40
4.7	Cyfngiadau i Hyfforddiant	42
4.8	Y Defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth	43
4.9	Yr heriau sy'n wynebu'r Sector Twristiaeth Gweithgareddau Antur	44
4.10	Effaith y sector gweithgareddau awyr agored ar yr economi lleol	46
4.11	Dulliau Hysbysebu Busnesau	47
4.11.1	Astudiaeth Achos 5	49
	Dewi Evans, Eryr Evans. Stryd Fawr Y Bala	49
4.12	Cysylltiadau gyda busnesau eraill	54
4.13	Lleoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri	56
4.14	Y gallu i siarad Cymraeg	57
4.15	Recriwtio staff	58
4.16	Cadw staff	62
5	Asesiad Effaith Economaidd	65
5.1	Cefndir	65
5.1.1	Rownd Wario Gyntaf	65
5.1.2	Rowndiau Gwario Cyflyredig	66
5.1.3	Colledion	66
5.2	Y Model	67
5.3	Cymhwyso'r Model	69
5.4	Dadansoddi'r Canlyniadau	70

5.5	Effaith o ran Cyflogaeth	71
5.6	Casgliadau	73

1 Crynodeb Gweithredol

Mae'r astudiaeth hon yn ystyried sut y mae'r diwydiant twristiaeth antur yn cyfrannu at yr economi lleol oddi fewn i Barc Cenedlaethol Eryri yn ogystal â'r economi ehangach yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae Gogledd Orllewin Cymru yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer gweithgareddau antur yn cynnwys Bowldro; Ogofa; Canŵa; Dringo; Arfordiro; Deifio; Rhedeg Mynydd; Caiacio; Syrffio barcud; Beicio Mynydd; Cyfeiriadu; Paragleidio; Beicio ffordd; Hwyllo; Sgramblo Mynyddoedd; Sgïo; Eirafyrddio; Syrffio; Cerdded; Raffio Dŵr Gwyn a Hwylfyrddio.

Ar sail y data a gasglwyd o arolwg busnes a wnaed yn ystod yr astudiaeth hon, amcangyfrifir fod y diwydiant twristiaeth antur yn cyfrannu mwy na £140 miliwn y flwyddyn at economi Gogledd Orllewin Cymru, ac mae £60 miliwn o'r swm hwnnw yn mynd tuag at economi ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r diwydiant yn creu (yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol) mwy na 8,400 o swyddi ledled Gogledd Orllewin Cymru, ac mae bron i 5,500 o'r rheiny yn cael eu creu o fewn ardal Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn cyfateb i bron i 6% o'r holl gyflogaeth ledled Gogledd Orllewin Cymru.

Er bod y diwydiant yn creu llawer o gyfleoedd am waith, dim ond llai na hanner y rheiny a gyflogir yn uniongyrchol o fewn y diwydiant sy'n cael eu cyflogi trwy gydol y flwyddyn. Mae'r diwydiant hefyd yn ddibynnol iawn ar weithwyr llawrydd.

Nid yw'n ymddangos bod recriwtio unigolion i weithio yn y diwydiant yn peri problem fawr i'r rhan fwyaf o'r cyflogwyr a holwyd. Fodd bynnag, o'r rhai a ddywedodd eu bod wedi cael trafferthion, dywedodd y mwyafrif mai diffyg ymgeiswyr gyda chymwysterau a phrofiad perthnasol oedd y prif reswm am hynny. Er gwaethaf canfyddiad cyffredin nad yw busnesau twristiaeth antur yn cynnig llawer o gyfleoedd gwaith lleol, awgryma canfyddiadau'r arolwg i'r gwrthwyneb. Dywedodd y cyflogwyr bod y mwyafrif helaeth o'r rhai sydd wedi eu recriwtio i'r sector yn byw yn lleol pan gawsant eu recriwtio. Dylid nodi, serch hynny, na ddaeth yr arolwg i gasgliad ynghylch ai dim ond symud i'r ardal ychydig cyn cael gwaith a wnaeth yr unigolion hyn. Credir fod hyn yn hynod debygol o ystyried y nifer o bobl â diddordeb yn yr awyr agored sy'n symud i'r ardal er mwyn medru cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau.

Er nad yw recriwtio yn broblem fawr i'r sector yng Ngogledd Orllewin Cymru, cymharol isel yw'r lefelau o ran cadw staff yn y sector. Ymhellach, mae'n peri peth bryder mai'r unigolion hynny sydd â chymwysterau a phrofiad perthnasol, ac sydd anoddaf i'w recriwtio ac felly i gael rhywun yn eu lle, yw'r rhai sydd yn gadael eu swyddi yn aml iawn. Er gwaethaf y materion hyn o ran cadw staff, mae hefyd llawer o symud o fewn y sector ac felly nid yw'r sgiliau a'r profiad perthnasol y mae busnesau unigol yn eu colli yn mynd o'r sector yn gyffredinol.

Mae'r cyfraddau cymharol uchel hyn o ran trosiant staff a'r ddibyniaeth ar weithwyr llawrydd yn creu heriau ar gyfer gwella sgiliau a hyfforddi ar draws y sector gan fod cyflogwyr yn amharod i fuddsoddi mewn hyfforddi staff sy'n annhebyg o aros yn eu swydd. Yn wir, cymharol ychydig o hyfforddiant sy'n digwydd o fewn y sector. Nid yw'n syndod, felly, fod nifer o fylchau amlwg o ran sgiliau, yn arbennig sgiliau TG a chymwysterau arbenigol yn ymwneud â meysydd penodol o weithgareddau twristiaeth antur. Ymddengys fod y cyflogwyr hynny sydd yn ymrwymo i hyfforddiant datblygu gweithlu yn gweld gwerth mewn dulliau anffurfiol o 'ddysgu trwy wneud' yn hytrach na dulliau hyfforddi mwy ffurfiol gan ddarparwyr allanol.

Yn ogystal â chreu cyflogaeth ac incwm ychwanegol yn ardal Gogledd Orllewin Cymru, mae'r diwydiant twristiaeth antur a'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag ef hefyd yn cyfrannu at ddelwedd lân ac iach yr awyrgylch lleol sydd, yn ei dro, yn denu mwy o dwristiaeth ac yn gwneud y lleoliad yn un deniadol ar gyfer unigolion a busnesau yn gyffredinol.

Mae cerdded ar dir uchel a thir isel yn dal i fod y gweithgaredd pwysicaf o ran dylanwadu ar fusnesau sy'n gweithredu o fewn y sector, er bod dringo creigiau, ac i raddau llai, canŵa, caiacio a beicio mynydd hefyd yn bwysig. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar fusnesau sy'n gweithredu yn yr ardal ac ymhlith rhai o'r prif faterion sy'n wynebu busnesau oddi fewn i'r diwydiant mae mynediad i leoliadau addas ar gyfer gweithgareddau, yn arbennig mynediad i ddŵr mewndirol ac argaeledd cyllid. Mae'r gystadleuaeth bellach a grëir rhwng busnesau wrth i'r sector dyfu hefyd yn her sy'n gynyddol effeithio ar y rhai sy'n gweithio yn y sector.

Ymhlith y meysydd y dywedodd y busnesau yr hoffent gael mwy o gefnogaeth roedd marchnata, hyfforddiant TG yn ogystal â'r cyfle i rwydweithio. Byddai creu rhwydwaith o gyflogwyr ar draws y sector yn ei gwneud yn bosibl cyfuno anghenion sgiliau a byddai hynny, yn y man, yn creu llwyfan ar gyfer dylanwadu ar ddarpariaeth hyfforddiant addas a meysydd perthnasol o gefnogaeth fusnes. Dylai sefydliadau megis ELWa ac ADC chwarae rôl allweddol er mwyn hwyluso datblygiad a chefnogi rhwydwaith o'r fath.

Mae'n amlwg bod y diwydiant twristiaeth antur yn faes neilltuol o fewn y diwydiant twristiaeth ehangach. Yn ogystal, mae'r astudiaeth hon wedi dangos bod y sector yn cael dylanwad positif sylweddol ar yr economi lleol. Fodd bynnag, nid yw ei gyfraniad llawn wedi cael ei wireddu hyd yma ac o'r herwydd mae'n cynnig rhagor o gyfleoedd cymdeithasol ac economaidd heb eu hail i Ogledd Gorllewin Cymru. Er mwyn manteisio ar y cyfleoedd hyn, bydd angen llawer o gefnogaeth ar y sector o ran datblygu busnes a datblygu sgiliau.

2 Cyflwyniad

2.1 Newidiadau ym maes twristiaeth

Mae twristiaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru yn ddiwydiant cymhleth a thameidiog, sydd wedi ei nodweddu gan ficro fusnesau. Mae mwy na 1,700 o fusnesau bach a chanolig eu maint, yng Ngwynedd yn unig yn ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth, naill ai trwy ddarparu llety neu redeg atyniadau. Yn sgîl hynny mae'r diwydiant yn gyflogwr allweddol yng Ngogledd Orllewin Cymru ac yn cael effaith sylweddol ar yr economi lleol ac mae'n gyrru datblygiad economaidd yn y rhanbarth. Fodd bynnag, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi peri trafferthion i'r diwydiant, yn arbennig i'r rhai sy'n gweithredu yn y sector twristiaeth awyr agored a gweithgareddau antur. Cafodd clwy'r traed a'r genau a'i ganlyniadau effaith neilltuol ac andwyol ar fusnesau sy'n gweithredu yn y sector hwn ar hyd a lled Gogledd Orllewin Cymru; yn wir mae llawer o fusnesau'n parhau i geisio goresgyn yr effeithiau.

Er gwaetha'r rhwystrau hyn mae'r diwydiant yn parhau i dyfu ac esblygu. Wrth i boblogrwydd gwyliau glan môr traddodiadol leihau yng Ngogledd Cymru, yn unol â'r patrwm ledled y DG gyfan, mae twristiaid yn gynyddol droi at wyliau byr sy'n eu galluogi i gymryd rhan mewn gweithgareddau antur a hynny mewn amgylchedd naturiol syfrdanol. Mae tirlun Parc Cenedlaethol Eryri a'r cyffiniau yn cynnig amgylchedd o'r fath ac mae bob amser wedi denu cerddwyr i'r ucheldir a'r tir isel. Fodd bynnag, yn gynyddol yn ystod y 25 mlynedd diwethaf, mae'r ardal wedi denu ymwelwyr sy'n dymuno cymryd rhan mewn ystod ehangach o weithgareddau awyr agored, yn amrywio o ddringo a sgramblo ceunentydd, i ganŵa a beicio mynydd. Mae gweithgareddau awyr agored fel y rhain yn rhan allweddol o'r sector twristiaeth antur sydd, yn ei dro, yn dod yn rhan bwysig iawn o'r diwydiant twristiaeth ehangach yng Ngogledd Orllewin Cymru.

2.2 Twristiaeth Gweithgareddau Antur

Yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer gweithgareddau anturus, mae gan Ogledd Orllewin Cymru, a Pharc Cenedlaethol Eryri yn arbennig, y potensial i fod ar flaen y gad mewn marchnad sydd, ar y cyfan, yn gysylltiedig â thwristiaid sydd wedi eu haddysgu'n dda, sy'n gefnog ac sy'n parchu'r amgylchedd. Yn ogystal, gan fod gan lawer o'r gweithgareddau hyn apêl ar hyd y flwyddyn mae tymor twristiaeth antur yn ymestyn y tu hwnt i dymor traddodiadol twristiaeth sydd rhwng Mai ac Awst. Yn sgîl y ffactorau hyn mae sawl un yn credu bod y farchnad twristiaeth gweithgareddau antur yn cynnig llawer mwy o fanteision rhagor na thwristiaeth draddodiadol, gydag ymwelwyr sy'n debygol o wario mwy, cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n hybu iechyd a lles meddyliol, a defnyddio'r amgylchedd lleol mewn modd cynaliadwy heb lawer o effaith.

Mae denu ymwelwyr i'r ardal er mwyn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn hefyd yn creu effeithiau economaidd positif ehangach. Mae'n annhebygol y bydd ymwelwyr yn cyfyngu eu gwario i nwyddau a gwasanaethau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r gweithgaredd y maent hwy yn cymryd rhan ynddo. Mae ymwelwyr o'r math yma hefyd yn debygol o wario arian ar fwyd, diod, llety, offer yn ogystal ag ar ffurfiau eraill o adloniant heb fod yn gysylltiedig â gweithgareddau antur. Bydd y referniw busnes lleol a grëir gan y patrymau gwario hyn, yn ei dro, yn cael ei basio ymlaen i gyflogeion ar ffurf cyflogau ac i fusnesau lleol eraill sydd yn y gadwyn gyflenwi. Y patrymau gwario uniongyrchol, anuniongyrchol a chyflyredig (*'induced'*)

hyn o fewn yr economi lleol yw'r sylfaen ar gyfer yr effaith economaidd lleol cyffredinol a grëir gan y sector.

Gan adnabod y potensial i wella a datblygu'r effaith positif a gaiff y sector gweithgareddau awyr agored ar yr economi lleol, yr amgylchedd a'r gymuned, mae grŵp o bobl fusnes annibynnol, agored eu meddwl o Wynedd, Môn a Chonwy wedi dod at ei gilydd i ffurfio Eryri-Bywiol. Mae'r grŵp yn rhannu'r un dyhead i hyrwyddo a diogelu'r sector twristiaeth gweithgareddau antur a diwydiannau awyr agored cysylltiol yng Ngogledd Orllewin Cymru. Nodau cyffredinol Eryri-Bywiol yw:

1. Cefnogi a datblygu Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored a diwydiannau cysylltiol yng Ngwynedd, Conwy a Môn.
2. Tynnu sylw at fuddiannau'r diwydiant Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored a defnyddwyr yn y rhanbarth, a'u hamddiffyn.
3. Sicrhau bod datblygiadau yn y sector ac o'i amgylch yn gynaliadwy o ran yr amgylchedd, y diwylliant lleol a'r ethos cyffredin ym maes chwaraeon.
4. Hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhwng ymwelwyr, busnesau a chymunedau lleol.
5. Cynorthwyo'r diwydiant Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored a'r gymuned lle mae'n weithredol i ddatblygu prosiectau, cynnyrch ac isadeiledd newydd.

Mae'r sector twristiaeth gweithgareddau antur, yn ôl diffiniad Eryri-Bywiol yn cynnwys:

"Gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar weithio gyda'r amgylchedd naturiol mewn modd sy'n heriol yn gorfforol lle bo sgil ac elfen o risg yn ganolog i'r profiad a lle bo'r sawl sy'n cymryd rhan yn gwerthfawrogi nodweddion esthetig yr amgylchedd naturiol mewn modd heddychlon. Nid yw'r sector, fel y'i diffinnir gan Eryri-Bywiol, yn cynnwys chwaraeon sy'n ymwneud â phetrol na hela anifeiliaid".

Y gweithgareddau canlynol yw'r rhai canolog oddi fewn i'r diffiniad hwn o'r sector:

Bowldro; Ogofa; Canŵa; Dringo; Arfordiro; Rhedeg mynydd; Caiacio; Syrffio barcud; Beicio Mynydd; Cyfeiriadu; Paragleidio; Beicio ffordd; Hwyllo; Sgramblo; Sgio; Eirafyrddio; Syrffio; Cerdded; Raffio Dŵr Gwyn a Hwylfyrddio.

Mae pob cyfeiriad a wneir at y sector twristiaeth gweithgareddau antur a wneir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y diffiniad hwn.

Pwrpas yr astudiaeth hon felly yw gwerthfawrogi'n llawn y cyfraniad economaidd a wneir gan y sector i'r economi lleol ym Mharc Cenedlaethol Eryri a'r cyffiniau yn ogystal a'r economi ehangach yng Ngogledd Orllewin Cymru. Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth fanwl am effaith y sector ar yr economi lleol a meithrin dealltwriaeth fanwl o'r anghenion o ran datblygu busnesau a thueddiadau cyflogi gweithredwyr oddi fewn i'r sector. Comisiynwyd yr astudiaeth gan Eryri-Bywiol, mewn cydweithrediad ag Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Gwynedd, Cymdeithas Ganŵa Cymru a *Skills Active UK*. Fodd bynnag, dehongliadau Newidiem Cyf a geir o ganfyddiadau'r astudiaeth.

2.3 Prif Ganfyddiadau

Mae'r adran ganlynol yn amlinellu'n gryno brif ganfyddiadau'r astudiaeth; ceir gwybodaeth fanylach a thystiolaeth gefnogol ym mhrif destun yn adroddiad.

Adnabu'r astudiaeth hon ychydig dros 200 o weithredwyr twristiaeth antur yng Ngogledd Orllewin Cymru a gofynnwyd i bob un ohonynt gymryd rhan yn yr arolwg. Cytunodd 63 o'r busnesau (31%) i gymryd rhan a chwblhaodd pob un ohonynt yr holiadur a ddosbarthwyd trwy'r post. Er mwyn cael dealltwriaeth lawnach o'r rhyng-gysylltiadau rhwng gweithredwyr twristiaeth antur a gweithredwyr eraill oddi fewn i'r diwydiant twristiaeth, gofynnwyd hefyd i oddeutu 600 o ddarparwyr llety, yn amrywio o westai i letyau gwely a brecwast a gwersylloedd, i gymryd rhan yn yr arolwg. Cafwyd nifer is, ond parchus serch hynny, o atebion (11%) o blith y garfan hon a rhoddodd hynny ddata gan sampl cynrychioladol da o fusnesau.

Trwy gymhwyso'r data am drosiant a gwariant a gasglwyd yn ystod yr arolwg busnes a gynhaliwyd yn rhan o'r astudiaeth hon i'n model asesiad effaith economaidd deunw i'r casgliad:

- Bod y diwydiant twristiaeth antur yn cyfrannu mwy na £140miliwn at economi Gogledd Orllewin Cymru ac fe gyfrannir £60miliwn ohono at economi Parc Cenedlaethol Eryri;
- Bod y diwydiant twristiaeth antur yn cyflogi 5,465 o bobl mewn blwyddyn yn Eryri a 8,451 o bobl yng Ngogledd Orllewin Cymru yn gyffredinol;
- Bod twristiaeth antur yn darparu 2,178 o swyddi llawn amser o fewn ardal parc cenedlaethol Eryri a 3,481 o swyddi llawn amser o fewn Gogledd Orllewin Cymru;
 - 385 yw cyfanswm y swyddi annhymorol a grëir gan y sector o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac mae'r sector yn creu 516 o swyddi annhymhorol ledled Gogledd Orllewin Cymru;
 - Mae hyn yn cyfateb i bron 6% o'r holl gyflogaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Er mwyn rhoi'r canfyddiadau hyn mewn cyd-destun, mae'r gyfran o gyflogaeth a grëir gan y sector twristiaeth antur ledled Gogledd Orllewin Cymru (6%) yn uwch na'r gyfran a gyflogir yn uniongyrchol o fewn y byd amaeth a physgota (4.2%) yn ogystal â'r gyfran a gyflogir yn uniongyrchol o fewn y sectorau ynni a dŵr (3.4%) a'r sector gweithgynhyrchu bwyd a diod a thybaco (3.5%) yn yr un ardal. Yn wir, mae'r gyfran o weithlu Gogledd Orllewin Cymru a gyflogir o ganlyniad i'r sector twristiaeth antur yn cymharu â'r gyfran a gyflogir o fewn y sector cludiant a chyfathrebu ar draws Gogledd Orllewin Cymru (5.4%). (ffynhonnell: *nomis – arolwg llafur blynyddol*).

Dylid nodi bod 6% o'r holl gyflogaeth a grëir yng Ngogledd Orllewin Cymru gan dwristiaeth antur yn cynnwys cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol (gweler adran 4 am eglurhad manwl) ond dim ond cyflogaeth uniongyrchol a gaiff ei chynnwys yn y cyfrannau ar gyfer sectorau eraill. O ganlyniad, ni ddylid ystyried yr uchod fel dull o gymharu maint y sectorau ond, yn hytrach, fel modd o ddangos mewn cyd-destun cyfanswm y gyflogaeth a grëir gan y sector twristiaeth antur.

Yn ôl ffigyrau Robert Huggins, amcangyfrifir mai £2.4 biliwn oedd y GDP yng Ngogledd Orllewin Cymru ym 1998. Mae gweithgareddau twristiaeth antur yn

cyfrannu £140 miliwn, yn uniongyrchol ac anuniongyrchol, at economi Gogledd Orllewin Cymru sy'n dangos ei fod yn gwneud cyfraniad sylweddol at yr economi lleol.

Er gwaetha'r ffaith fod llawer o weithgareddau twristiaeth antur yn boblogaidd trwy gydol y flwyddyn, mae llai na hanner (45%) y rheiny a gyflogir yn y sector yn cael eu cyflogi trwy gydol y flwyddyn. Cyflogir mwy na chwarter (28%) am rhwng 3 a 6 mis yn ystod y flwyddyn a chyflogir 15% arall am lai na 3 mis y flwyddyn (gweler ffigur 3.3). Pan gymharir hyn â phatrymau cyflogaeth ymhlith y busnesau darparu llety a holwyd, lle cyflogir tri chwarter y rheiny a gyflogir o fewn y sector trwy gydol y flwyddyn a'r chwarter arall yn cael eu cyflogi'n dymhorol, sylweddolwn fod busnesau sy'n gweithredu'n uniongyrchol ym maes gweithgareddau twristiaeth antur yn cynnig llai o swyddi sefydlog trwy gydol y flwyddyn. Gall hyn yn aml beri anawsterau iunigolion sy'n awyddus i gael sicrwydd gwaith er mwyn ariannu morgeisi a benthyciadau ac ati, ac efallai ei fod, i ryw raddau, yn egluro'r materion sy'n ymwneud â chadw staff a amlinellir isod. Fodd bynnag, dylid nodi hefyd bod rhai meysydd o dwristiaeth antur yn fwy dibynnol nag eraill ar weithredwyr llawrydd am gyfnodau byr yn ystod y flwyddyn, a thrwy hynny cynyddir y gyfran o unigolion a gyflogir am lai na thri mis y flwyddyn (gweler ffigur 3.5).

Yn ystod y deuddeng mis cyn yr arolwg, dywedodd y mwyafrif o'r busnesau twristiaeth antur a atebodd (87%) fod cyflogaeth o fewn eu busnesau naill wedi aros yr un fath neu wedi tyfu. Fodd bynnag, dywedodd 13% o'r busnesau fod y nifer a gyflogwyd gan eu busnes yn ystod yr un cyfnod wedi lleihau o'i gymharu â dim ond 7% o'r busnesau darparu llety a oedd wedi wynebu'r un math o leihad (gweler ffigur 3.8). Fodd bynnag, mae busnesau twristiaeth antur, ar y cyfan, yn rhagweld y bydd cyflogaeth yn ystod y deuddeng mis nesaf naill ai'n aros yr un fath neu'n cynyddu (gweler ffigur 3.9). Serch hynny, rhagwelwyd peth leihad yn nifer y swyddi trwy'r flwyddyn gan bron i 6% o'r busnesau a holwyd a rhagwelai 8% o'r busnesau leihad yn y nifer a gyflogir am lai na 3 mis y flwyddyn. Fodd bynnag, dywedodd mwy na dwy ran o dair (69%) o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd eu bod yn rhagweld cynnydd yn y nifer a gyflogir am hyd at dri mis yn y flwyddyn i ddod. Ar y cyfan, ymddengys fod cyfleoedd gwaith o fewn busnesau twristiaeth antur yn debygol o dyfu, er bod y rhan fwyaf o'r twf hwn yn debyg o fod o ran swyddi tymhorol dros dro.

Er bod y ffactorau a nodir uchod yn ymwneud â chyflogaeth ac incwm yn amlwg yn fanteisiol i Ogledd Orllewin Cymru, mae'r dylanwadau economaidd hyn yn is o ran pwysigrwydd, yn ôl busnesau twristiaeth antur a busnesau darparu llety a gymerodd ran yn yr arolwg, nag yw rôl y sector o ran hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru fel rhanbarth a gallu'r sector i ddenu mwy o bob math o fasnach twristiaeth i'r ardal (gweler ffigur 3.31). Mewn geiriau eraill, roedd y rhai a holwyd yn ymwybodol fod ardal sy'n cael ei chysylltu mor agos gyda gweithgareddau twristiaeth antur yn creu delwedd o amgylchedd cyffrous, glân, iach a dymunol. Gall delwedd atyniadol o'r fath ddenu unigolion a busnesau i'r ardal, heb fod ganddynt, o anghenraid, gysylltiadau uniongyrchol gyda'r gweithgareddau hyn ond sydd, fodd bynnag, gyda'r potensial i gyfrannu at ffyniant economaidd yr ardal. Yn ogystal, maent yn ystyried bod y deilliannau positif hyn yn bwysicach hyd yn oed na'r deilliannau a geir i fusnesau sy'n gweithredu'n uniongyrchol o fewn y sector. Ni ellir cynnwys y goblygiadau ehangach hyn yn y model economaidd a fabwysiadir yma, ac o'r herwydd medrwn ddod i'r casgliad fod y manteision economaidd cyffredinol yn fwy na'r rheiny a nodir uchod.

Cerdded yn yr ucheldir ac ar dir is ac, i'r un graddau, dringo creigiau yw'r gweithgareddau pwysicaf o hyd i'r gyfran helaethaf o'r busnesau twristiaeth antur a

holwyd. Yn wir, dim ond llai nag un o bob deg a ddywedodd nad yw gweithgareddau sy'n ymwneud â cherdded a dringo creigiau yn berthnasol o gwbl i'w busnes. Mae hon yn gyfradd isel iawn o ystyried yr amrywiaeth o fusnesau a holwyd ac mae'n tynnu sylw at y ffaith na ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y gweithgareddau hyn (gweler ffigur 3.41). Mae hefyd yn dangos y dylanwad sydd gan fynyddoedd Eryri / Yr Wyddfa eu hun ar y sector. Fodd bynnag, dywedodd mwy nag un o bob pump o'r rhai a holwyd mai canŵa (22%) a caiacio (21%) yw'r gweithgaredd pwysicaf i'w busnes a dywedodd 15% o'r rhai a holwyd mai beicio mynydd yw'r gweithgaredd pwysicaf. Yn ddiddorol ddigon, dim ond llai nag un o bob deg o'r rhai a holwyd (9%) a ddywedodd mai hwylio yw'r gweithgaredd pwysicaf i'w busnes a dywedodd mwy na hanner y busnesau (53%) nad yw hwylio'n berthnasol o gwbl iddynt. Mae hyn yn eithaf syndod o ystyried y datblygiadau sydd wedi bod ym Marina Hafan Pwllheli a'r datblygiadau marina arfaethedig ar Ynys Môn.

Roedd tri chwarter y rhai a holwyd ym maes twristiaeth antur wedi eu lleoli o fewn ffiniau parc cenedlaethol Eryri o'i gymharu â dim ond ychydig mwy na hanner (54.3%) y darparwyr llety a holwyd. O'r busnesau hynny sydd o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol, dywedodd 15% o'r busnesau twristiaeth antur na châi eu lleoliad o fewn y parc cenedlaethol unrhyw ddylanwad ar eu busnes a dywedodd 5% fod bod o fewn y parc cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar eu busnes, yn ôl pob tebyg oherwydd y cyfyngiadau datblygu sy'n bodoli o fewn y parc cenedlaethol. Mae hyn yn peri peth syndod o ystyried fod ansawdd yr amgylchedd naturiol wedi arfer cael ei nodi'n un o'r ffactorau allweddol y tu ôl i lwyddiant busnesau o'r math yma. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r busnesau twristiaeth antur (66%) yn cydnabod bod lleoli eu busnes o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol yn dod ag o leiaf rywfaint o effeithiau positif. Yn wir, dywedodd 15% o'r busnesau twristiaeth antur na fyddai eu busnes yn hyfyw oni fyddent yn gweithio o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol. Ategwyd yr atebion positif hyn gan y rhai a holwyd oddi fewn i'r sector darparu llety lle dywedodd bron bob un o'r busnesau (92%) fod bod o fewn ffiniau'r parc cenedlaethol o leiaf yn rhannol fanteisiol.

Gofynnwyd i fusnesau twristiaeth antur enwi'r prif fater sy'n effeithio ar eu busnes a'r ddau brif fater a nodwyd oedd mynediad i leoliadau addas ar gyfer cynnal gweithgareddau a chyllid. Mae cael mynediad i ddyfroedd mewndirol yn broblem a wynebir gan lawer o weithredwyr, a dywedodd eraill fod mynediad yn gyffredinol yn broblem. O ran cyllid, beirniadodd nifer o'r rhai a holwyd "gostau cynyddol yswiriant", ond wynebai eraill drafferthion hefyd o ganlyniad i dynhau cyllidebau addysg a chyllidebau awdurdodau lleol neu gynlluniau grant anhyblyg. Ymhlith yr heriau eraill a wynebwyd gan fusnesau roedd cystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr eraill a chanfod staff dibynadwy, a chyfeiriodd un neu ddau o'r rhai a holwyd at faterion na all Eryri-Bywiol ddylanwadu nac effeithio amynt, megir y gyfradd gyfnewid a'r tywydd.

Gofynnwyd i fusnesau fanylu yn yr holiadur ynghylch y gwasanaethau cefnogi a fyddai fwyaf defnyddiol iddynt. Y gwasanaethau a nodwyd amlaf oedd marchnata cynnyrch / gwasanaethau cefnogi, cyfleoedd rhwydweithio, hyfforddiant/cefnogaeth TG a chefnogaeth gydag ymchwil marchnata.

Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r sector twristiaeth antur yn creu nifer helaeth o gyfleoedd gwaith ar draws Gogledd Orllewin Cymru. Dywedodd y mwyafrif o fusnesau twristiaeth antur (62.5%) na chânt unrhyw broblemau'n recriwtio staff addas o'i gymharu â llai na hanner (47%) y darparwyr llety (gweler ffigur 3.58). Fodd bynnag, dywedodd 37.5% o'r busnesau twristiaeth antur eu bod wedi cael problemau wrth recriwtio a nodwyd diffyg cymwysterau perthnasol ynghyd â diffyg

profiadau perthnasol fel y ddau brif reswm am y trafferthion hyn. Dim ond 4.3% o'r naill fath o fusnes a 6.5% o'r llall sydd o'r farn fod diffyg sgiliau rheoli a sgiliau busnes cyffredinol yn problem.

O ran y meini prawf a fabwysiadwyd gan gyflogwyr twristiaeth antur wrth asesu ymgeiswyr, dywedodd 28% mai sgiliau rhyngpersonol yw'r pwysicaf, ac yn ail agos iawn i hynny roedd profiad perthnasol o'r diwydiant a phersonoliaeth.

O'r 53% o fusnesau darparu llety a ddywedodd eu bod wedi cael problemau wrth recriwtio, dywedodd bron i hanner (44%) mai diffyg diddordeb neu frwdfrydedd yw'r prif reswm am hyn. Diffyg profiad perthnasol oedd yr ail brif reswm a nodwyd er mai dim ond 12% o'r rheiny a oedd wedi wynebu trafferthion a ddywedodd mai dyma'r prif reswm.

Mae'r busnesau twristiaeth antur a'r busnesau darparu llety a holwyd yn dibynnu'n helaeth ar lafar gwlad fel modd o hysbysebu swyddi gwag, ac yn ail agos i hynny mae hysbysebion yn y wasg leol. Mae busnesau twristiaeth antur yn fwy tebygol o hysbysebu swyddi mewn cyhoeddiadau y tu allan i Ogledd Cymru nag yw darparwyr llety ac maent yn fwy tebygol o recriwtio trwy wefannau ar-lein. Yn wir, dywedodd bron i 13% o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd eu bod yn hysbysebu swyddi ar y we.

Wedi recriwtio staff dywedodd bron i un o bob pump (19%) o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd eu bod wedi wynebu problemau wrth gadw staff. Yn wir, mae hyn yn uwch na'r gyfradd a gofnodwyd yn y sector darparu llety. O gadw mewn cof fod y sector gwestai ar y cyfan gyda throsiant uchel o ran staff ac o ddefnyddio hyn fel procsi i ddangos y problemau cadw staff sy'n debygol o wynebu'r sector darparu llety'n gyffredinol, mae'r ffaith fod y gyfradd cadw staff yn uwch ymhlith busnesau twristiaeth antur yn peri peth bryder ac yn awgrymu bod angen ystyried y mater ymhellach. Mae mwy o le i bryderu o ystyried bod y gyfran uchaf o staff sy'n gadael eu swyddi yn meddu ar brofiad penodol gweithgareddau'r busnesau twristiaeth antur. Pan ystyrir hefyd mai'r swyddi hyn a nodwyd fel y rhai anoddaf i'w llenwi (fel y dywedir uchod) mae'n annhebygol fod y sector mewn sefyllfa i barhau â throsiant staff cymharol uchel. Nid yw trosiant staff uchel yn peri'r un math o bryder i'r sector darparu llety gan mai staff cefnogi cyffredinol yw'r staff a gollir yn bennaf, ac mae'r rheiny ar y cyfan yn haws i'w canfod.

Ar nodyn mwy positif, dywedodd bron i chwarter (23%) y rhai a holwyd o'r sector twristiaeth antur bod staff yn gadael eu swyddi o ganlyniad i alwadau tymhorol sy'n awgrymu y byddent yn dychwelyd yn ystod cyfnodau tymhorol mwy ffafriol. Yn yr un modd, mae un rhan o dair o'r staff sy'n gadael eu swyddi (29%) yn gadael er mwyn chwilio am swydd debyg yn rhywle arall, sy'n awgrymu bod staff yn symud o fewn y sector ac nad yw'r holl staff sy'n gadael eu swyddi hefyd yn gadael y sector. Wedi dweud hynny, mae cyfran sylweddol (19%) yn gadael er mwyn chwilio am swyddi tebyg o fewn y sector ond y tu allan i ffiniau'r parc cenedlaethol.

Mae galwadau tymhorol hefyd yn un o'r prif resymau pam fod staff yn gadael swyddi o fewn y sector darparu llety a dywedodd bron chwarter y busnesau bod staff yn gadael eu swyddi am y rheswm hwn gyda chyfran gyffelyb yn gadael er mwyn chwilio am swyddi amgen y tu allan i'r sector.

Yn ogystal â materion yn ymwneud â recriwtio a chadw staff, gofynnwyd i'r busnesau a holwyd roi sylwadau am y meysydd sgiliau y maent o'r farn y dylid eu gwella neu sy'n ddiffygiol ymhlith eu staff neu eu gweithlu presennol (bylchau

sgiliau) yn ogystal â'r meysydd sgiliau y dylid eu gwella neu'r sgiliau nad yw'r gweithlu posibl yn meddu arnynt¹ (prinder sgiliau). Mae gwahaniaethu rhwng y materion sy'n ymwneud â sgiliau staff cyfredol a'r materion sy'n ymwneud â sgiliau ymhlith unigolion sydd o fewn y gweithlu lleol yn gyffredinol yn ein galluogi i asesu i ba raddau mae bylchau sgiliau o fewn busnesau yn cyfateb i brinder sgiliau ymhlith y boblogaeth leol sydd mewn oed gwaith. Mae hyn yn ei dro yn ein galluogi i asesu'r potensial sydd i fusnesau fynd i'r afael â bylchau o ran sgiliau trwy recriwtio'n lleol yn ogystal â chanfod i ba raddau mae cyflogwyr yn ystyried y gweithlu lleol fel ymgeiswyr addas ar gyfer cyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

O blith y busnesau a holwyd, sgiliau TG a chymwysterau sy'n gysylltiedig â meysydd penodol o weithgareddau twristiaeth antur a nodwyd fel y prif faes sgiliau lle mae bylchau'n bodoli, ac yn agos iawn ar ôl hynny roedd sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg, sgiliau cyfathrebu cyffredinol yn ogystal â phrofiad yn ymwneud â gweithgareddau penodol ym maes twristiaeth antur (gweler ffigur 3.11). Dywedwyd hefyd fod sgiliau cyfathrebu cyffredinol ynghyd â chymwysterau a phrofiad perthnasol i weithgareddau twristiaeth yn feysydd lle mae'r prif brinder sgiliau ymysg y gronfa o weithwyr sydd ar gael yn lleol. Fodd bynnag, roedd llai o fusnesau twristiaeth antur o'r farn fod prinder sgiliau yn y Gymraeg ymhlith y gweithlu lleol nag a ddywedodd fod bylchau o ran sgiliau eu staff cyfredol yn y Gymraeg ac mae hynny'n wir hefyd am sgiliau TG. Serch hynny, roedd cyflogwyr o'r farn fod cyfradd uwch o unigolion heb sgiliau gofal cwsmer a brwdfrydedd yn y gweithlu lleol nag sydd ymhlith eu gweithlu presennol. Ar ben hynny, ystyrir fod y prinder sgiliau o ran profiad perthnasol a sgiliau cyfathrebu cyffredinol yn uwch ymhlith y gweithlu lleol na'r bwch yn yr un sgiliau ymhlith cyflogaion presennol. Awgryma hyn bod rhaid i gyflogwyr, ar y cyfan, ddod ag o leiaf rywfaent o staff, o'r tu allan i'r ardal leol os ydynt am sicrhau'r cydbwysedd sgiliau y maent eu hangen trwy'r polisiau recriwtio. Fodd bynnag, hyd yn hyn nid ymddengys fod busnesau twristiaeth antur wedi recriwtio llawer y tu allan i'r ardal leol, a cafodd llai na 13% o staff cyfredol y busnesau a holwyd eu recriwtio mewn ardaloedd y tu hwnt i ardal parc cenedlaethol Eryri. Mae hyn yn llai na'r 16% o staff a gafodd eu recriwtio o'r tu allan i'r ardal leol o blith y busnesau darparu llety a holwyd (gweler tablau 3.56 a 3.57). Ymddengys, felly, fod y sector twristiaeth antur, yn cynnig cyfleoedd cynyddol am waith ond hefyd fod gweithwyr lleol yn manteisio ar y cyfleoedd hynny, er gwaetha'r ffaith fod rhai bylchau ac anghenion sgiliau'n bodoli o ganlyniad.

Er gwaetha'r prinder ymddangosiadol mewn sgiliau TG a nodwyd gan y busnesau twristiaeth antur, dywedodd pawb ac eithrio 3% o'r rhai a holwyd eu bod yn defnyddio cyfrifiaduron yn rhan o'u gweithrediadau busnes. Anfon a derbyn negeseuon e-bost yw'r defnydd mwyaf poblogaidd a nodwyd ac yn dilyn hynny roedd hyrwyddo'r busnes ar y rhyngwrdd a phori'r we eu hunain (gweler tabl 3.27). Dywedodd ychydig dros dri chwarter o'r busnesau twristiaeth antur eu bod yn defnyddio cyfrifiaduron i gofnodi cyfrifon ariannol o'i gymharu â dim ond 59% o'r busnesau darparu llety a holwyd.

Mae'n ddiddorol bod llai na hanner (47%) y busnesau twristiaeth antur sy'n derbyn archebion trwy'r we, er bod mwy nag wyth o bob deg (82%) ohonynt yn hysbysebu eu busnes ar y rhyngwrdd, ac er gwaetha'r ffaith fod bron ddau o bob tri o'r busnesau'n prynu rhai nwyddau a gwasanaethau ar y we (gweler ffigur 3.27). Mae'r gyfran o fusnesau twristiaeth antur sy'n derbyn archebion ar-lein yn llawer is na'r gyfran sy'n derbyn archebion yn yr un modd ymhlith busnesau darparu llety. O

¹ Y gweithlu lleol yw'r gronfa o unigolion lleol mewn oed gwaith (h.y. o fewn Gogledd Orllewin Cymru) y gellid eu hystyried yn ymgeiswyr yn ystod prosesau recriwtio yn y dyfodol.

ystyried bod cyfran sylweddol o gwsmeriaid twristiaeth antur yn debygol o fod yn unigolion cymharol ifanc sy'n deall cyfrifiaduron, ac o ystyried hefyd y duedd gynyddol i dwristiaid wneud archebion ar y we, mae anallu neu amharodrwydd y busnesau i dderbyn archebion ar-lein yn debygol o amharu ar faint y galw y gall eu busnesau ei greu.

Nid recriwtio yw'r unig fodd o fynd i'r afael â bylchau sgiliau, wrth gwrs. Mae hyfforddiant datblygu gweithlu yn elfen hollbwysig i'r rhan fwyaf o fusnesau sy'n weithredol ym maes gweithgareddau sy'n gofyn am gryn dipyn o wybodaeth a phrofiad. Ychydig dros chwarter (27%) o'r unigolion a gyflogwyd gan y busnesau twristiaeth antur a holwyd a ddywedodd eu bod wedi derbyn rhyw fath o hyfforddiant yn ystod y deuddeng mis blaenorol, o'i gymharu â dwy ran o dair (67%) o'r unigolion a gyflogwyd o fewn y sector darparu llety, er na fedrwn wybod beth yw natur na safon yr hyfforddiant a gawsant. Mae'r gyfran gymharol isel o gyflogaeth ym maes twristiaeth antur sy'n cymryd rhan mewn hyfforddiant yn adlewyrchu i ryw raddau natur ansefydlog llawer o'r gyflogaeth a amlinellwyd yn flaenorol.

O'r rheiny o blith busnesau twristiaeth antur sydd wedi derbyn rhyw fath o hyfforddiant roedd un o bob tri wedi cael hyfforddiant wrth y gwaith, un o bob pump wedi cael hyfforddiant y tu allan i'r gwaith ac roedd yr hanner arall wedi cymryd rhan mewn cyfuniad o hyfforddiant wrth y gwaith a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith (gweler ffigur 3.16b). Roedd y rhan fwyaf o fusnesau twristiaeth antur a oedd wedi cymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant (57%) wedi ariannu'r rhan fwyaf o'u hyfforddiant o'u coffrau eu hunain (gweler ffigur 3.17). Er bod ffynonellau arian amgen ar gael gan yr Awdurdod Lleol, ELWa ac ADC, derbyniodd llai na 15% o'r busnesau gyllid gan yr Awdurdod Lleol, ychydig dros un o bob deg (11%) a dderbyniodd arian gan ELWa a derbyniodd llai na 6% gyllid gan ADC (Gweler ffigur 3.18 a 3.19).

Yn ogystal â materion yn ymwneud â chyllid, mae canfyddiadau'r cyflogwyr ynglŷn â'r dulliau mwyaf effeithiol o ddatblygu sgiliau hefyd yn dylanwadu'n gryf ar faint o hyfforddiant a gaiff ei gynnal yn ogystal ag ar natur yr hyfforddiant e.e. hyfforddiant ffurfiol ynteu dysgu anffurfiol. Roedd y busnesau twristiaeth antur a holwyd o'r farn mai dysgu trwy wneud a thrwy brofiadau real ynghyd â mentora a hyfforddi yw'r dulliau mwyaf effeithiol o hyfforddi, sy'n awgrymu bod y rhan fwyaf o gyflogwyr o fewn y sector yn ffafrio dulliau anffurfiol o hyfforddi rhagor na chysiau ffurfiol. Wedi dweud hynny, mynegodd cyflogwyr farn eu bod yn gweld peth gwerth mewn dulliau hyfforddi ffurfiol megis hyfforddiant yn y man gwaith gan hyfforddwyr allanol ynghyd â hyfforddiant arall yn y gwaith ac y tu allan i'r gwaith. Serch hynny, mae'r farn yn amrywiol iawn parthed y ffurfiau hyn ar hyfforddiant. Er bod mwy na hanner yr holl fusnesau a holwyd o'r farn fod y dulliau hyfforddi ffurfiol hyn yn rhannol effeithiol, o leiaf, roedd barn y busnesau eraill yn amrywio o gredu eu bod yn hynod effeithiol i gredu eu bod yn hollol aneffeithiol. Mae hyn yn arbennig o wir o ran y safbwyntiau a fynegwyd parthed prentisiaethau lle amrywiai barn y cyflogwyr am effeithiolrwydd cynlluniau hyfforddi o'r fath o gredu eu bod yn aneffeithiol i gredu eu bod yn effeithiol (Gweler ffigur 3.20 a 3.21).

Efallai bod yr ystod helaeth hyn o safbwyntiau yn adlewyrchu i ryw raddau brofiadau unigol y busnesau, ond gall fod hefyd yn adlewyrchu diffyg cyfathrebu rhwng cyflogwyr a darparwyr hyfforddiant o ran natur yr hyfforddiant sydd ar gael ac, yn yr un modd, yr anghenion sy'n bodoli o ran hyfforddiant. Gan fod ffocws mentrau dysgu gweithlu yn gynyddol ddatblygu yn ôl y galw, efallai fod hwn yn faes lle bo angen archwiliad pellach. Gallai hyn beri pryder penodol o ystyried bod mwy na 10% o fusnesau twristiaeth antur yn credu mai anaddasrwydd y cysiau hyfforddi

cyfredol naill ai i'r busnes neu i'r cyflogeion yw'r prif rwystr sy'n eu hatal rhag cymryd rhan mewn hyfforddiant datblygu gweithlu (gweler ffigur 3.24).

2.4 Casgliadau

Mae'r sector twristiaeth antur yn gwneud cyfraniad sylweddol i economi lleol Gogledd Orllewin Cymru o ran yr arian a ddaw yn sgîl gwariant gan dwristiaid yn ogystal â'r cyfleoedd gwaith a grëir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn. Yn ogystal, mae natur y gweithgareddau, yn arbennig y modd y maent yn hyrwyddo byw'n iach a chynnaladwyedd amgylcheddol, yn creu delwedd ddeniadol i Ogledd Orllewin Cymru sy'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, ac mae gan hynny, yn ei dro, y potensial i greu mwy o fanteision economaidd a chymdeithasol na chânt eu cynnwys o fewn yr astudiaeth hon.

Mae cyflogaeth net ar draws y sector yng ngogledd orllewin Cymru wedi tyfu yn ystod y deuddeng mis diwethaf ac mae'n argoeli y bydd hynny'n parhau yn ystod y deuddeng mis nesaf. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y twf yn wastad ar draws pob rhan o'r sector a rhagwelir peth lleihad mewn cyflogaeth hefyd. Awgryma hyn fod busnesau mewn rhai rhannau o'r sector yn parhau'n gymharol wan ac efallai y bydd arnynt angen mwy o gefnogaeth er mwyn goresgyn rhai o'r cyfyngiadau a'r rhwystrau i dwf sy'n eu hwynebu ar hyn o bryd.

Ymhlith y meysydd penodol a nodwyd gan fusnesau a holwyd yn ystod yr astudiaeth hon fel rhai lle mae angen mwy o gefnogaeth roedd marchnata cynnyrch a gwasanaethau, y cyfle i rwydweithio a rhannu profiadau a chynhaliadau ar gyfer hyfforddiant TG. Er bod cefnogaeth yn y meysydd hyn ar gael eisoes, mae'r gefnogaeth yn aml wedi ei thargedu tuag at y diwydiant twristiaeth yn gyffredinol ac nid ydyw bob amser yn mynd i'r afael â rhai o'r gofynion penodol sydd gan y sector twristiaeth antur o fewn y diwydiant.

Dangosodd yr arolwg fod nifer o fylchau sgiliau ymhlith y rheiny a gyflogir ar hyn o bryd o fewn y sector yn arbennig sgiliau TG, fel y nodir uchod, ynghyd â sgiliau eraill sy'n berthnasol i'r sector. Ymddengys hefyd fod diffyg dealltwriaeth ymhlith cyflogwyr o ran y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael yn lleol yn ogystal â'r diffyg dealltwriaeth ymysg darparwyr hyfforddiant o anghenion datblygu sgiliau busnesau.

Ymddengys, felly, y byddai annog datblygiad rhwydwaith busnesau twristiaeth antur yn rhoi llwyfan ar gyfer cydnabod ac ymdrin â llawer o'r materion hyn.

Mae'n amlwg fod twristiaeth antur, fel maes penodol o fewn y diwydiant twristiaeth ehangach, eisoes yn cyfrannu llawer at yr economi lleol yng ngogledd orllewin Cymru a hynny heb amharu ar yr amgylchedd ac mewn modd cynaliadwy. Mae amgylchedd naturiol ysblennydd gogledd orllewin Cymru yn cynnig cyfle unigryw i ddatblygu diwydiant twristiaeth antur o safon fyd-eang. Fodd bynnag, mae llawer o feysydd o fewn y sector yn parhau heb eu datblygu ac o'r herwydd mae angen cefnogaeth bellach o sawl cyfeiriad er mwyn sicrhau bod llawn botensial y sector yn cael ei wireddu.

2.5 Strwythur gweddill yr adroddiad

Rhennir yr adroddiad yn ôl yr adrannau a ganlyn:

Pennod 3: Methodoleg

Y prif ddull methodolegol a ddefnyddiwyd ar gyfer cywain gwybodaeth ar gyfer yr asesiad effaith economaidd oedd arolwg o fusnesau twristiaeth antur a darparwyr llety, ynghyd ag astudiaethau achos manylach o sampl o fusnesau

Pennod 3: Yr Ymateb i'r Arolwg

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am ganlyniadau'r arolwg ac yn eu dadansoddi. Darperir gwybodaeth am niferoedd staff, lefelau ac anghenion sgiliau, hyfforddiant, y defnydd o TG, achredu a hysbysebu.

Pennod 4: Aseiad Effaith Economaidd

Rhydd y bennod hon amcan o effaith economaidd gyffredinol y sector twristiaeth antur yng Ngogledd Orllewin Cymru ac amlinella'r model effaith economaidd a fabwysiadir.

3 Methodoleg yr Ymchwil

3.1 Amlinelliad o'r dull a fabwysiadwyd

Y prif ddull a ddefnyddiwyd ar gyfer casglu gwybodaeth er mwyn gwneud yr asesiad effaith economaidd oedd arolwg ar ffurf holiaduron. Cynhaliwyd dau arolwg ar yr un pryd ac ategwyd hwy gan gyfweiliadau gyda rhai busnesau. Y prif ddulliau arolygu oedd,

- Arolwg Busnesau Twristiaeth Antur
- Arolwg Darparwyr Llety
- Astudiaethau Achos Busnesau

3.2 Methodoleg Ymchwil Feintiol

3.2.1 Datblygu'r Holiaduron

Er mwyn casglu gwybodaeth am effaith gyffredinol twristiaeth antur, roedd gofyn holi busnesau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r sector a darparwyr llety. Penderfynwyd cynnal dau arolwg ar wahân, y naill ar gyfer y busnesau a'r llall ar gyfer y darparwyr llety gan fod peth o'r wybodaeth yr oedd ei hangen gan y ddwy garfan a holwyd yn wahanol, er bod llawer o'r wybodaeth yr un fath. Paratowyd dau holiadur gwahanol.

3.2.2 Dethol Busnesau i'w Holi

Yn dilyn archwiliad o gronfeydd data busnes, yn bennaf cronfa ddata fusnes Eryri-Bywiol ei hun, adnabuwyd 200 o fusnesau gweithgareddau awyr agored sy'n gweithredu yn ardal Eryri. Roedd gan Eryri-Bywiol hefyd fynediad i gronfeydd data o ddarparwyr llety a dewiswyd sampl cynrychioladol ohonynt at ddibenion yr arolwg.

3.2.3 Cwestiynau'r Holiaduron

Ar ôl cyfnod o ymchwil desg a chysylltu gyda'r Cleient, lluniwyd dau holiadur. Roedd llawer o'r cwestiynau a ofynnwyd i'r busnesau a'r darparwyr llety yn union yr un fath fel y gellid gwneud cymariaethau a chasglu gwybodaeth am y sector cyfan.

Roedd yr holiaduron yn ceisio gwybodaeth am lefelau staffio a hyfforddiant, trosiant, gwariant, y gefnogaeth sydd ei hangen, a manylion am eu busnesau.

3.2.4 Cynnal yr Arolygon


Gwnaed y cysylltiad cyntaf gyda'r busnesau a'r darparwyr llety trwy llythyr a anfonwyd ynghyd â chopi papur o'r holiadur. Cyflwynwyd y llythyr gan Eryri-Bywiol a rhoddwyd peth gwybodaeth gefndirol ynglŷn â phwrpas yr arolwg a manylion cyswllt y tîm ymchwil.

Anfonwyd y llythyrau gyda'r holiaduron at bob un o'r 200 o fusnesau twristiaeth antur a adnabuwyd ac at bron i 600 o ddarparwyr llety arbenigol a rhai heb fod yn arbenigol sy'n gweithredu yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Rhoddwyd cynnig i fusnesau gwblhau a dychwelyd yr holiadur papur trwy'r post, neu'r fersiwn electronig trwy e-bost neu gymryd rhan mewn cyfweiliad ffôn.

Defnyddiwyd yr un dull ar gyfer y ddau arolwg, a cysylltwyd wedyn ar y ffôn rhwng 25 Tachwedd 2003 a gwyliau'r Nadolig. Ceir crynodeb o'r dull hwn yn ffigur 2.1.

Ffigur 2.1: Cynnal yr Arolwg.



3.2.5 Cyfradd Ymateb

Ymatebodd 134 o'r rhai y cysylltwyd â hwy, roedd y rhain yn cynnwys,

63 o fusnesau twristiaeth antur
71 o ddarparwyr llety cysylltiol

Mae hyn yn gyfystyr â chyfradd ymateb o oddeutu 31% o'r busnesau ac 11% o'r darparwyr llety. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn y gyfradd ymateb yn peri syndod o ystyried fod natur a diben yr holiadur yn canolbwyntio ar dwristiaeth antur ac ni fyddai wedi ymddangos yn bwysig nac yn berthnasol i rai o'r darparwyr llety mwy cyffredinol yn y rhanbarth.

3.3 Methodoleg Ymchwil Feintiol

Cam nesaf yr ymchwil oedd ymweld â phum chwaraewr allweddol yn y sector twristiaeth antur yng Ngogledd Orllewin Cymru, er mwyn galluogi'r tîm ymchwil i gynnal cyfweiliadau holl gynhwysfawr a llunio astudiaethau achos byrion. Mae'r cyfweiliadau hyn yn caniatáu archwiliad mwy trylwyr o wariant busnesau, er enghraifft a gaiff nwyddau megis offer, bwyd ayb eu prynu yn ardal Eryri ynteu mewn ardaloedd eraill; pa gysylltiadau sy'n bodoli rhwng y busnesau; sut ac ymhle caiff staff eu recriwtio a pha fath o hyfforddiant sydd ei angen ar fusnesau.

4 Yr Ymateb i'r Arolwg

4.1 Proffil o'r rhai a Holwyd

Fel yr amlinellwyd yn flaenorol, roedd gwahaniaeth yn yr arolwg rhwng y busnesau sy'n darparu gweithgareddau Twristiaeth Antur a'r busnesau sy'n darparu llety yn gysylltiedig â gweithgareddau twristiaeth antur. Mae'r adran isod yn rhoi proffil amlinellol o'r rhai a holwyd yn y ddwy ran o'r sector.

4.1.1 Busnesau Twristiaeth Antur

Disgrifiodd bron i ddwy ran o bump (38%) o'r busnesau Twristiaeth Antur (ac eithrio darparwyr llety cyffredinol) a holwyd eu hunain fel Gweithredwyr Gweithgareddau Awyr Agored neu Dwristiaeth Antur. Hwn oedd y grŵp mwyaf yn y sector, ac wedyn manwerthwyr (22.4% o'r cyfanswm) a chanolfannau addysg (15.5%).

Ffigur 3.1: Proffil o'r busnesau Twristiaeth Antur a holwyd

Disgrifiad o'r busnes	Canran
Gweithredydd Gweithgareddau Awyr Agored / Twristiaeth Antur	37.9
Canolfan Addysg Awyr Agored	15.5
Manwerthwr offer / dillad gweithgareddau awyr agored	22.4
Gwneuthurwr offer arbenigol	3.4
Darparydd llety arbenigol yn gysylltiedig â'r awyr agored	6.9
Hyfforddwr Awyr Agored Llwydd	13.8
Cyfanswm	100.0

O blith y darparwyr llety sy'n gysylltiedig â'r sector a holwyd yn ystod yr astudiaeth hon, dywedodd dros chwarter (28%) fod eu llety'n hunanarlwyol, a chyfeiriad chwarter arall (23%) atynt eu hunain fel gwestai.

Ffigur 3.2: Proffil o'r darparwyr llety heb fod yn arbenigol a holwyd

Disgrifiad o'r Llety	Canran
Gwesty	23.1
Hostel	5.1
Byncws	3.8
Gwely a Brecwast	14.1
Hunan Arlwyo	28.2
Gwersyll a Maes Carafannau	11.5
Tŷ Gwledig	1.3
Gwesty Bychan	6.4
Arall	5.1

4.1.2 Astudiaeth Achos 1:

Y Ganolfan Fynydda Gristnogol (CMC), Harbwr Pensarn

Mae'r Ganolfan Fynydda Gristnogol yn Ganolfan Addysg Awyr Agored a sefydlwyd ym 1965 ym Meddgelert. Fe'i seiliwyd ar weledigaeth un gŵr, Mike Perrin, a oedd am redeg canolfan weithgareddau awyr agored yn seiliedig ar egwyddorion Cristnogol. Yn ddiweddarach, symudodd y ganolfan i Dremadog er mwyn medru ehangu ac yno medrent ddarparu ar gyfer 32 o westeion. Wrth i'r blynyddoedd fynd yn eu blaenau, roedd dosbarthiadau mwy yn gofyn am gyrsiau ac felly ym 1997 symudodd y ganolfan i Harbwr Pensarn, i'r de o Harlech, o ganlyniad uniongyrchol i ddarbodwydd maint. Mae'r ganolfan wedi bod yn mynd o nerth i nerth fyth ers hynny. Ym Mhensarn gallant ddarparu ar gyfer 50 o gleientiaid preswyl ynghyd â 30 o ymwelwyr dydd yn ychwanegol. Colegau, grwpiau ieuentid ac ysgolion yw'r rhan fwyaf o'u cleientiaid.

Mae gan y ganolfan 5 aelod o staff parhaol ac 8 gwirfoddolwr sydd fel arfer yn gweithio yn y ganolfan am gyfnod o flwyddyn neu ddwy. Rhoddir llety, bwyd a hyfforddiant i'r gwirfoddolwyr hyn yn eu blwyddyn gyntaf a rhoddir cwrs hyfforddi iddynt yn ystod eu hail flwyddyn yn gwirfoddoli. Ar ddiwedd y cyfnod hwn, os daw swydd ar gael yn y ganolfan, byddant mewn sefyllfa gref i wneud cais amdani. Daw'r gwirfoddolwyr o ardaloedd ymhell i ffwrdd. Mae'r ganolfan yn awyddus i hyrwyddo cysylltiadau lleol ond nid yw'n ymddangos bod gan bobl leol lawer o ddiddordeb mewn gwirfoddoli yn y ganolfan, er iddynt gael un neu ddau o hyfforddeion lleol yn y gorffennol. Mae'r ganolfan yn darparu llety arbenigol sy'n cynnig caiacio, cerdded, mynydda, dringo creigiau, sgramblo ceunentydd, canŵa, raffio dŵr gwyn, beicio cerdded a gweithgareddau adeiladu tîm. O ran cyllid, mae'r ganolfan yn adennill ei chostau, a credir ei bod yn bwysig talu digon er mwyn denu staff o'r ansawdd gorau.

Un o'r ffyrdd y mae'r ganolfan yn dymuno ehangu yw trwy ymestyn eu tymhorau. Maent wedi bod yn gwneud hyn trwy gynnig gwahanol brisiau, ac maent wrthi'n datblygu hyn ymhellach. Yn ôl Mark Downey, cyfarwyddwr y ganolfan, maent yn gorfod gwrthod pobl 'o bob cyfeiriad' yn ystod yr haf, ond mae cyfnodau eraill yn parhau'n dawel. Mae eu blwyddyn arferol yn rhedeg o Chwefror hyd Hydref ac fe'i rhennir yn rannau amlwg. Rhwng Chwefror a Mawrth yw'r cyfnod pan ddaw colegau a grwpiau ieuentid yno; y Pasg yw'r amser ar gyfer ysgolion; yn yr haf ceir grwpiau anghenion arbennig a grwpiau ieuentid yn y ganolfan a chyfnod grwpiau ieuentid ydyw drachefn rhwng Medi a Hydref. Daw eu cleientiaid yn bennaf o ardaloedd yng ngogledd Lloegr a hefyd o Norfolk a Brighton. Mae'r ganolfan yn ceisio datblygu cysylltiadau lleol ac mae Coleg Llandrillo, Bae Colwyn, eisoes yn ymweld unwaith neu ddwy y flwyddyn. Maent yn ail-lansio eu cysylltiadau gydag ysgolion lleol yn Ionawr 2004 trwy gyfrwng rhaglen o gysylltiadau newydd. Mae'r ganolfan yn rhedeg grŵp *Crusader* bob wythnos, sef grŵp ieuentid sy'n codi ymwybyddiaeth ymhlith plant lleol.

Er mai canolfan Gristnogol ydyw, mae'n darparu ar gyfer pawb. Fe'i hysbysebir mewn cylchgronau arbenigol a gwneir y rhan fwyaf o ymholiadau trwy'r rhyngwyd. Ond y prif gyfrwng o ddenu pobl i'r ganolfan, o bell ffordd, yw llafar gwlad. Mae'r ganolfan yn gweithio o fewn y Parc Cenedlaethol ac er y gallai weithredu y tu allan i ffiniau'r parc, ni fyddai mor llwyddiannus, yn ôl Mark Downey. Mae lleoliad y ganolfan o fewn y Parc yn ffactor wrth i bobl ddewis ymweld â'r ardal, ond fel canolfan, nid ydynt yn sylwi ar bresenoldeb y Parc. Mae gan y ganolfan gysylltiadau da gyda busnesau lleol. Maent yn ceisio prynu nwyddau lleol lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ond maent yn mynd ymhellach os medrant brynu nwyddau'n rhatach. Ni ellir prynu'r offer arbenigol sy'n angenrheidiol yn y ganolfan yn lleol, ond mae Mark Downey o'r farn eu bod yn rhoi hwb i'r economi lleol trwy gyflogi pobl lleol. O dro i dro, mae rhai o'r gweithgareddau a gynigir, megis rhedeg mynedd, yn rhoi cyfle i gefnogi busnesau gwely a brecwast lleol.

Mae'r ganolfan o'r farn y dylai gweithgareddau awyr agored fod ar gael i bawb ond maent yn pwysleisio'r angen i ddatblygu'r sector mewn modd cyfrifol heb ddifa'r adnoddau y mae twristiaeth antur yn dibynnu arnynt. Mae rhai o'r saffleoedd y maent yn eu defnyddio ar hyn o bryd yn cael eu herydu o ganlyniad i ddefnydd gan ormod o bobl a'r perygl mwyaf, yn ôl

cyfarwyddwr y ganolfan, yw y gallai'r holl gerdded yn yr ardal ei difetha. Mae datblygiad cyfrifol yn hollbwysig.

Byddai'r ganolfan yn cael budd o gefnogaeth o ran marchnata cynnyrch a gwasanaethau, datblygu cynnyrch, cyfleoedd rhwydweithio, hyfforddiant TG a chefnogaeth ar gyfer sgiliau TG a rheoli.


4.2 Cyflogaeth o fewn y sector

3.2.1 Nifer y Cyflogeion

Mae canfyddiadau'r dadansoddiad effaith yn nodi mai 8,451 yw cyfanswm y rhai a gyflogir o fewn y sector twristiaeth antur yn gyffredinol ar draws Gogledd Orllewin Cymru, a bod 2,178 o'r rheiny yn cael eu cyflogi yn uniongyrchol o fewn busnesau sy'n cynnig gweithgareddau twristiaeth antur.


Dengys canlyniadau'r arolwg, o'r rheiny a gyflogir o fewn *busnesau sy'n cynnig gweithgareddau Twristiaeth Antur* (1,250 o bobl), fod y gyfran uchaf, er bod y gyfran honno'n llai na hanner (45%), yn cael eu cyflogi trwy gydol y flwyddyn a bod dros chwarter (28%) yn cael eu cyflogi rhwng 3 a 6 mis y flwyddyn. Cyflogir ychydig mwy nag 1 o bob deg (12%) am rhwng 6 a 12 mis y flwyddyn a chyflogir cyfran ychydig yn uwch (15%) am lai na 3 mis y flwyddyn.

Ffigur 3.3. Y gyfran o staff busnesau Twristiaeth Antur a gyflogir yn ystod gwahanol gyfnodau yn y flwyddyn.



Ar y llaw arall, cyflogir (74%) o'r rheiny a gyflogir gan fusnesau darparu llety (659 o bobl) sy'n gysylltiedig gyda Thwristiaeth Antur trwy gydol y flwyddyn a chyflogir 15% am rhwng 6 a 12 mis y flwyddyn. Dim ond 6% o'r rheiny sy'n gweithio yn y busnesau hyn a gyflogir am rhwng 3 a 6 mis y flwyddyn a chyflogir llai na 5% am ddim ond 4 mis y flwyddyn neu lai.

Ffigur 3.4. Y gyfran o staff busnesau darparu llety a gyflogir yn ystod gwahanol gyfnodau yn y flwyddyn.



O'r 45% o weithwyr a gyflogir yn uniongyrchol gan fusnesau Twristiaeth Antur trwy gydol y flwyddyn, cyflogir ychydig mwy na dau o bob tri (68%) yn llawn amser a chyflogir 30% yn rhan amser, tra bo'r 2.3% arall yn cael eu cyflogi ar sail llawrydd (*freelance*). Dengys Tabl 3.4 y gyfran o bob grŵp a gyflogir yn llawn amser, yn rhan amser ac ar sail cytundeb llawrydd.

Ffigur 3.5. Y ganran o staff busnesau Twristiaeth Antur a gyflogir yn llawn amser, rhan amser ac yn llawrydd yn ôl hyd y cyfnod cyflogi.

	Canran o'r Cyfanswm	Canran o'r Cyfanswm a gyflogir		
		Llawn amser	Rhan amser	Llawrydd
Trwy gydol y flwyddyn	45%	67.6	30.1	2.3
6 – 12 mis	12%	35.8	13.5	50.7
3 – 6 mis	28%	86.7	2.8	10.6
Llai na 3 mis	15%	0.0	4.4	95.6
Pob cyfnod	100%	59.5	16.5	24.0

Dengys y tabl uchod ddibyniaeth gynyddol ar weithwyr llawrydd ymhlith busnesau twristiaeth antur pan fel cyflogeion nad ydynt yn gweithio trwy gydol y flwyddyn. Roedd hanner y cyflogeion a gyflogwyd am rhwng 6 a 12 mis y flwyddyn gan fusnesau twristiaeth antur yn gweithio'n llawrydd. Mae hyn yn cymharu ag ychydig dros un rhan o dair (36%) sydd yn cael eu cyflogi'n llawn amser.

Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r data ar gyfer y rheiny a gyflogir am rhwng 3 a 6 mis y flwyddyn. O fewn y grŵp mwy hwn o gyflogeion, caiff mwy na 86% o'r

gweithwyr eu recriwtio i weithio'n llawn amser, dim ond 2.8% a gyflogir yn rhan amser a chyflogir ychydig mwy na 10% fel gweithwyr llawrydd.

Mae'r ddibyniaeth ar weithwyr llawrydd amlycaf mewn achosion lle bo unigolion yn cael eu cyflogi am lai na 3 mis y flwyddyn. Mewn achosion o'r fath mae bron bob un (95%) yn cael eu cyflogi ar sail llawrydd. Nid yw hyn yn syndod o ystyried ei bod yn anodd iawn denu staff i weithio mewn swyddi sy'n cynnig cytundebau o lai na thri mis oni chânt eu cyflogi ar sail llawrydd.

Ar gyfartaledd, ar draws pob cyfnod cyflogi, cyflogwyd 60% o'r staff yn llawn amser, 16.5% yn rhan amser a 24% ar sail llawrydd.

O fewn maes llety'r sector, mae'r gyfran o staff llawn amser mewn cymhariaeth â staff rhan amser yn gostwng yn sylweddol yn unol â hirhoedledd y cytundebau gwaith. O blith y busnesau a holwyd, cyflogwyd 58% o'r staff a gyflogir trwy gydol y flwyddyn yn llawn amser, gyda 38% yn rhan amser a dim ond 3% ar sail llawrydd. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, o'r holl staff a gyflogir am rhwng 6 a 12 mis y flwyddyn, cyflogir ychydig mwy na thraean (35%) yn llawn amser tra bo mwy na hanner (53%) yn cael eu cyflogi'n rhan amser, a chyflogir yr 11% arall ar sail llawrydd. O'r rheiny a gyflogir am rhwng 3 a 6 mis y flwyddyn, penodir chwarter ohonynt fel cyflogeion llawn amser. Yn yr un modd â busnesau Twristiaeth Antur, cyflogir cyfran helaeth (50%) o'r rheiny a gyflogir am lai na 3 mis y flwyddyn ar sail llawrydd.

Dengys y canlyniadau hyn o'r arolwg fod cyfran uwch o gyflogeion yn cael eu cyflogi'n llawn amser na'r cyfartaledd ar gyfer twristiaeth Cymru yn gyffredinol. Er na ellir cymharu'r ffigurau'n uniongyrchol, dangosodd data a gasglwyd ar ran Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer 1998 fod hanner y rheiny a gyflogwyd ym maes twristiaeth yn gweithio'n llawn amser a bod eu hanner yn cael eu cyflogi'n rhan amser.

Ffigur 3.6. Y ganran o staff busnesau darparu llety a gyflogir yn llawn amser, rhan amser ac yn llawrydd yn ôl hyd y cyfnod cyflogi.

Cyfnod Cyflogi	Canran o'r Cyfanswm	Canran o'r Cyfanswm a Gyflogir		
		Llawn Amser	Rhan Amser	Llawrydd
Trwy gydol y flwyddyn	74%	58.5	38.5	3.0
6-12 mis	15%	35.7	53.1	11.2
3-6 mis	6%	24.5	65.3	10.2
Llai na 3 mis	5%	5.6	44.4	50.0

Nifer y staff mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol

Dywedodd mwy na chwarter y busnesau Twristiaeth Antur (28%) eu bod wedi cyflogi mwy o staff yn ystod y 12 mis diwethaf (2002-2003) nag yr oeddent wedi ei wneud yn 2001-02. Mewn cymhariaeth, 13.5% o'r rhai a holwyd a ddywedodd eu

bod wedi cyflogi llai o staff a dywedodd 58% fod nifer eu staff yr un fath ag yr oedd cynt.

4.2.1 Astudiaeth Achos 2

Canolfan Conwy. Ynys Môn

Canolfan addysg breswyl yw hon. Mae'n darparu llety cyffredinol gyda chysylltiadau â gweithgareddau awyr agored. Yn flaenorol, roedd y ganolfan yn ysgol hyfforddiant morwrol genedlaethol ei Mawrhydi ond fe'i rhoddwyd yn nwylo cyngor Sir Gaer yn y 1970au ac fe'i newidiwyd yn ganolfan AALI. Mae'r ganolfan bellach yn cael ei gosod ar les gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol i dri awdurdod unedol sef Holton, Sir Gaer ac Warrington, a ddeilliodd o gyngor Sir Gaer gynt. Yr awdurdodau hyn sy'n cyfrif am oddeutu 50% o'u cwsmeriaid.

Mae tua 30% o'u hymwelwyr yn dod yno i gymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Cynigia'r ganolfan lety ar gyfer gweithgareddau trawsgwricwlaidd. Mae'n arferol iawn i'r ganolfan dderbyn grŵp blwyddyn gyfan o ysgol. Caiff rhai o'r gweithgareddau eu harwain gan staff y ganolfan, ac eraill gan yr ysgolion eu hunain. Maent hefyd yn cynnig cyrsiau undydd sy'n ymdrin ag astudiaethau maes ar gyfer myfyrwyr TGAU a lefel A. Daw'r myfyrwyr hyn o Sir Gaer, Stoke ac mor bell i ffwrdd â Kent. Daw grwpiau o tua 15 o fyfyrwyr BTEC o Goleg Llandrillo, Bae Colwyn i'r ganolfan ar ddydd Llun a dydd Mawrth. Cynigia'r ganolfan amrywiaeth helaeth o gyrsiau o grwpiau ysgol i hyfforddiant rheoli. Ethos y ganolfan yw fod arallgyfeirio yn eu rhoi mewn sefyllfa gadarnach.

Mae ganddynt 420 o welyau ac mae'r gyfradd westeion yn bur gyson. Maent yn awyddus i leihau nifer y gwelyau i oddeutu 370 ond i gynyddu hyblygrwydd y ganolfan, trwy ddarparu mynediad i gadeiriau olwyn a newid maint yr ystafelloedd. Mae'r ganolfan yn cyflogi 60 o staff parhaol ac mae 40 o'r rheiny'n rhan amser. Maent hefyd yn cyflogi hyd at 20 o staff llawrydd. Mae'r staff hyfforddi yn cael eu recriwtio trwy wefan Sefydliad Dysgu Awyr Agored, papurau cenedlaethol a CV a anfonwyd gan unigolion sydd wedi clywed am y ganolfan ac sydd gyda diddordeb mewn bod yn rhan o'u gweithgareddau. Mae gan lawer o'r staff radd a chymhwyster addysgu ynghyd â phrofiad o weithio gyda grwpiau awyr agored a daw eraill o gefndir galwedigaethol. Mae'r ganolfan yn rhedeg cynllun hyfforddeion sy'n rhoi cyfle i 4 o raddedigion neu fyfyrwyr BTEC hyfforddi. Caiff yr holl staff cefnogol eu recriwtio'n lleol. Nid oes unrhyw lety i staff yn y ganolfan ac felly mae'r holl staff yn byw y tu allan i'r ganolfan.

Prynr yr offer yn lleol. Er mai AALI yn Lloegr sy'n berchen ar yr offer, gwneir yr holl benderfyniadau parthed prynu yn y ganolfan. Gwneir penderfyniadau ar sail y fargen orau. Ni chânt unrhyw broblemau yn canfod offer a dim ond tua 5% o'u cyllideb sy'n cael ei gwario y tu allan i'r ardal – y tu hwnt i Wynedd ac Ynys Môn.

£1.5 miliwn yw trosiant y ganolfan ac mae 25% yn deillio o weithgareddau awyr agored. Maent yn gobeithio cael proffil uwch yn genedlaethol o ran ymarfer da ac ymweliadau addysgol. Yn y dyfodol agos, maent yn gweithio ar sefydlu mwy o gysylltiadau gydag ysgolion lleol yn Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae cais wedi ei wneud am arian loteri ar gyfer grwpiau dydd. Er nad yw'r cais yn fawr iawn mewn termau ariannol – dim ond tua £35,000 – mae'n bwysig am ei fod yn dod gan awdurdod lleol Ynys Môn. Yn y gorffennol mae'r holl arian wedi dod o gronfeydd refeniw. Maent yn gobeithio y bydd hyn yn arwain at ffynhonnell newydd o ran arian a chymorth wrth wireddu eu polisi o arallgyfeirio.

Prin iawn oedd yr amrywiaeth yn yr atebion a gafwyd gan fusnesau parthed newidiadau yn y nifer o staff a gyflogir trwy gydol y flwyddyn a rhwng 3 a 12 mis o'r flwyddyn. Dywedodd tua chwarter y busnesau Twristiaeth Antur eu bod yn penodi mwy o staff ar gytundebau 3-6, 6-12 neu 12 mis.

Fodd bynnag, ymddengys fod mwy o gyfnewidioldeb yn y nifer o bobl a gyflogir am lai na 3 mis y flwyddyn. Dywedodd bron i 40% o'r busnesau eu bod yn cyflogi mwy o bobl yn 2003-03 ar gytundebau o'r fath nag yn 2001-02 a dywedodd 23% eu bod yn cyflogi llai o bobl. Dim ond 38% a gyflogai'r un nifer o bobl ar gytundebau o lai na 3 mis o'i gymharu â rhwng 60% a 70% ar gyfer cytundebau o rhwng 3 a 12 mis.

Ffigur 3.7. Nifer o staff a gyflogwyd gan fusnesau Twristiaeth Antur yn ystod y 12 mis diwethaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfnod cyflogi	Uwch	Is	Yr un fath
Trwy gydol y flwyddyn	27.1	12.5	60.4
Rhwng 6 a 12 mis	25.0	16.7	58.3
Rhwng 3 a 6 mis	25.0	6.3	68.8
Llai na 3 mis	38.5	23.1	38.5
Cyfanswm	28.1	13.5	58.4

Yr oedd peth tebygrwydd o ran newidiadau cyflogi rhwng y busnesau twristiaeth antur a'r darparwyr llety. Unwaith eto, roedd cyfran uwch o fusnesau wedi recriwtio mwy o staff ar gytundebau o lai na 3 mis. Dywedodd un o bob tri o'r darparwyr llety eu bod wedi cynyddu nifer y staff ar gytundebau o'r fath o'i gymharu ag oddeutu chwarter a oedd wedi cynyddu nifer y staff ar gytundebau o rhwng 3 a 12 mis.

Fodd bynnag, er bod mwy na 23% o fusnesau twristiaeth antur wedi dweud bod llai o staff ar gytundebau o lai na 3 mis, dim ond 8% oedd y ffigwr ar gyfer darparwyr llety. Roedd y mwyafrif o ddarparwyr llety – rhwng 58% a 72% yn dibynnu ar hyd y cytundeb – yn cyflogi yr un nifer o bobl. Mae hyn yn awgrymu bod nifer cyflogaion ymhlith darparwyr llety wedi aros yn fwy cyson nag a wnaeth ymysg busnesau twristiaeth antur yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

Ffigur 3.8. Nifer o staff a gyflogwyd gan fusnesau darparu llety yn ystod y 12 mis diwethaf o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cyfnod cyflogi	Uwch	Is	Yr un fath
Trwy gydol y flwyddyn	23.0	4.9	72.1
Rhwng 6 a 12 mis	20.0	8.0	72.0
Rhwng 3 a 6 mis	26.7	13.3	60.0
Llai na 3 mis	33.3	8.3	58.3
Cyfanswm	23.9	7.1	69.0

Disgwyliadau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol

Roedd bron un o bob tri o'r busnesau twristiaeth antur yn rhagweld y byddent yn cyflogi mwy o staff trwy gydol y flwyddyn yn ystod y flwyddyn nesaf, a dim ond llai na 6% a ragwelai y byddai ganddynt lai o gyflogion trwy gydol y flwyddyn. Roedd mwy na hanner y busnesau a holwyd yn disgwyl cyflogi mwy o staff am rhwng 6 a 12 mis ac roedd ychydig llai na'u hanner yn disgwyl cyflogi mwy am rhwng 3 a 6 mis. Ni ragwelai yr un busnes y byddai'n cyflogi llai o staff yn yr un o'r categorïau hyn.

Unwaith eto, ymddengys fod mwy o gyfnewidioldeb ymhlith busnesau twristiaeth antur o ran nifer y staff a gyflogir ar gytundebau o lai na 3 mis. Roedd llai na chwarter y busnesau twristiaeth antur yn disgwyl cyflogi'r un nifer o staff ar gytundebau o 3 mis neu lai. Gellir cymharu hyn â 53% ar gyfer cytundebau o rhwng 3 a 6 mis, 45% ar gyfer cytundebau o rhwng 6 a 12 mis a mwy na 60% ar gyfer cytundebau trwy gydol y flwyddyn. Disgwyliai bron i 70% o'r busnesau y byddai cynnydd yn nifer eu staff a gyflogid am lai na 3 mis y flwyddyn, a dim ond 7.7% a ragwelai ostyngiad yn y nifer.

Ffigur 3.9. Y newid rhagweledig yn nifer y staff a gyflogir gan fusnesau Twristiaeth Antur yn ystod y 12 mis nesaf.

Cyfnod cyflogi	Cynnydd	Gostyngiad	Yr un fath
Trwy gydol y flwyddyn	31.4	5.9	62.7
Rhwng 6 a 12 mis	54.5	0.0	45.5
Rhwng 3 a 6 mis	46.7	0.0	53.3
Llai na 3 mis	69.2	7.7	23.1

Mae'r rhagolygon o ran cyflogaeth ymhlith darparwyr llety yn sylweddol llai addawol nag ydyw ymhlith busnesau twristiaeth antur. Ni ragwelai'r mwyafrif helaeth o ddarparwyr llety unrhyw newid yn y nifer o staff yn ystod y 12 mis nesaf. Rhagwelai llai nag un rhan o bump (18%) o'r darparwyr llety gynnydd yn y nifer o staff a gyflogir trwy gydol y flwyddyn, o'i gymharu â mwy na 31% o'r busnesau twristiaeth antur.

Rhagwelai chwarter y darparwyr llety y byddai cynnydd yn nifer y staff a gyflogir am rhwng 6 a 12 mis a rhagwelai mwy na 35% gyflogi mwy o staff am 3-12 mis. Y ffigyrau cyfatebol ar gyfer busnesau twristiaeth antur oedd 54% a 47%.

Yn syfrdanol ddigon, dim ond 17% o'r darparwyr llety a ragwelai y byddai cynnydd yn nifer y staff a gyflogir am lai na 3 mis. Er mai'r grŵp hwn o gyflogion a ddangosodd yr anweddolrwydd mwyaf yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf ymhlith darparwyr llety a busnesau (ac a gafodd y rhagolygon mwyaf positif gan yr olaf o'r rhain), rhagwelai tri chwarter y darparwyr llety y byddai cyflogaeth yn aros yr un fath.

Ffigur 3.10. Y newid rhagweledig yn nifer y staff a gyflogir gan fusnesau darparu llety yn ystod y 12 mis nesaf.

Cyfnod cyflogi	Cynnydd	Gostyngiad	Yr un fath
Trwy gydol y flwyddyn	17.7	1.6	80.6
Rhwng 6 a 12 mis	25.0	0.0	75.0
Rhwng 3 a 6 mis	35.3	5.9	58.8
Llai na 3 mis	16.7	8.3	75.0

4.3 Anghenion o ran gwella sgiliau

Yr atebion mwyaf cyffredin a gafwyd gan fusnesau twristiaeth antur parthed anghenion sgiliau eu staff cyfredol oedd sgiliau TG a chymwysterau penodol sy'n berthnasol i'w busnesau hwy (11.3% o'r atebion yn cyfeirio at y naill a'r llall). Roedd sgiliau o ran yr iaith Gymraeg hefyd yn faes a nodwyd gan 10.8% fel un lle mae angen gwella. Roedd sgiliau cyfathrebu (10.3%) hefyd yn faes lle credwyd fod angen gwella yn ogystal â phrofiad perthnasol yn gysylltiedig â natur eu busnes.

Dilynai'r atebion a gafwyd o ran anghenion gwella sgiliau'r gweithlu lleol batrwm tebyg, a nodwyd sgiliau cyfathrebu, cymwysterau perthnasol a phrofiad gan fwy nag 11%. Fodd bynnag, roedd mwy o'r farn fod angen gwella gwasanaethau cwsmer (10.7%) a brwdfrydedd (8.6%) na sgiliau yn y Gymraeg neu sgiliau TG (5.6% a 6.1%).

Ffigur 3.11. Anghenion gwella sgiliau staff cyfredol mewn busnesau Twristiaeth Antur ac ymysg y gweithlu lleol

Y prif feysydd o ran anghenion gwella sgiliau	Canran o atebion y busnesau Twristiaeth Antur	
	Staff cyfredol	Gweithlu lleol
Rhifedd	2.5	2.5
Llythrennedd	1.5	3.0
Sgiliau'r iaith Gymraeg	10.8	5.6
Sgiliau leithoedd Tramor	4.4	3.0
Sgiliau Datrys Problemau	3.4	4.6
Sgiliau Cyfathrebu	10.3	11.7
Sgiliau TG	11.3	6.1
Sgiliau Arwain/Ysgogi	6.9	4.1
Sgiliau Rheoli	5.9	4.1
Sgiliau Gweithio mewn Tîm	4.9	6.6
Sgiliau Entrepreneuriaidd	4.4	5.6
Gwasanaethau Cwsmer	6.9	10.7
Brwdfrydedd	5.4	8.6
Cymwysterau Perthnasol	11.3	11.2
Profiad Perthnasol	9.8	11.2
Arall	0.5	1.5

Sgiliau cyfathrebu a brwdfrydedd oedd y meysydd a nodwyd yn fwyaf cyffredin fel rhai sydd angen eu gwella. O ran eu staff cyfredol, y meysydd a nodwyd gan ddarparwyr llety fel y rhai sydd angen eu gwella oedd brwdfrydedd, sgiliau cyfathrebu, sgiliau TG a sgiliau gwasanaethau cwsmer. Roedd llai o ddarparwyr llety o'r farn fod angen gwella cymwysterau a phrofiad yn benodol gysylltiedig â'u busnes nag oedd o fusnesau twristiaeth antur.

Ymhlith y gweithlu lleol, roedd darparwyr llety o'r farn fod brwdfrydedd a sgiliau cyfathrebu'n flaenoriaeth tra bo sgiliau TG yn llai o flaenoriaeth ganddynt. Mae hyn yn cyfateb i'r patrwm a welwyd ymhlith busnesau twristiaeth a nodwyd sgiliau gwasanaethau cwsmer y gweithlu lleol hefyd gan lawer o ddarparwyr llety a busnesau twristiaeth hamdden. Mae'n ddiddorol fod darparwyr llety a busnesau twristiaeth antur fel ei gilydd yn ystyried sgiliau TG fel y prif fwch o ran sgiliau eu staff ond fod llai o fwch yn hynny o beth yng nghyd-destun y gweithlu lleol.

Mae'r atebion a gafwyd gan ddarparwyr llety a busnesau twristiaeth antur ar y cyfan yn cyd-fynd â chanfyddiadau *Arolwg Sgiliau Generig Sgiliau Dyfodol Cymru 2003*. Canfu'r arolwg hwnnw o fusnesau fod y bylchau mwyaf o ran sgiliau yn y gweithlu

ym maes TG, ac yna cyfathrebu ac yna, sgiliau a nodwyd gan lawer llai o bobl – sef blaengaredd, sgiliau datrys problemau a'r gallu i ddysgu.

Ffigur 3.12. Anghenion gwella sgiliau staff cyfredol mewn busnesau darparu llety ac ymysg y gweithlu lleol


Y prif feysydd o ran anghenion gwella sgiliau	Canran o atebion y darparwyr llety	
	Staff cyfredol	Gweithlu lleol
Rhifedd	1.4	2.0
Llythrennedd	0.0	2.0
Sgiliau'r iaith Gymraeg	7.6	4.1
Sgiliau leithoedd Tramor	2.8	2.0
Sgiliau Datrys Problemau	3.4	6.8
Sgiliau Cyfathrebu	11.7	14.3
Sgiliau TG	13.8	6.8
Sgiliau Arwain/Ysgogi	4.1	4.1
Sgiliau Rheoli	2.8	4.1
Sgiliau Gweithio mewn Tîm	4.8	8.2
Sgiliau Entrepreneuriaidd	4.8	5.4
Gwasanaethau Cwsmer	14.5	12.9
Brwdfrydedd	13.8	15.6
Cymwysterau Perthnasol	6.9	3.4
Profiad Perthnasol	6.2	5.4
Arall	1.4	2.7

Meini prawf ar gyfer asesu ymgeiswyr a recriwtio staff newydd

Sgiliau rhyngpersonol, ac wedyn profiad yn berthnasol i'r diwydiant, personoliaeth a chymwysterau perthnasol i'r diwydiant oedd y meini prawf pwysicaf i fusnesau Twristiaeth Antur ar gyfer asesu ymgeiswyr a recriwtio staff newydd. Mae'n ddi-ddorol mai dim ond 2.2% o'r atebion a nodai sgiliau TG fel maen prawf er gwaetha'r ffaith mai dyna'r maes a nodwyd amlaf gogyfer ag anghenion gwella sgiliau staff cyfredol.

Mae'r atebion yma yn gwrthgyferbynnu i raddau â chanfyddiadau *Sgiliau Dyfodol Cymru* a ddangosai mai sgiliau TG a nodwyd gan fusnesau gyda bylchau sgiliau fel y sgiliau mwyaf prin. Fodd bynnag, mae'r pwyslais a roddwyd ar sgiliau rhyngpersonol yn y fan yma yn cyd-fynd ag arolwg *Sgiliau Dyfodol Cymru* a ganfu mai sgiliau cyfathrebu a oedd yr ail faes a nodwyd amlaf o ran prinder sgiliau.

Ffigur 3.13. Meini prawf busnesau twristiaeth antur ar gyfer asesu ymgeiswyr a recriwtio staff newydd



Ffigur 3.14. Meini prawf busnesau twristiaeth antur ar gyfer asesu ymgeiswyr a recriwtio staff newydd

Maini prawf pwysicaf ar gyfer asesu staff newydd	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Sgiliau rhyngpersonol	27.7
Profiad diwydiant-berthnasol	21.9
Cymwysterau diwydiant-berthnasol	15.3
Cymwysterau eraill	0.0
Profiad heb fod yn ddiwydiant-berthnasol	2.2
Oed	2.2
Personoliaeth	20.4
Dim hanes o drosedd	6.6
Sgiliau TG	2.2
Arall	1.5

Rhoddodd darparwyr llety bwyslais mawr ar sgiliau tebyg i'r hyn a nodwyd gan fusnesau twristiaeth antur, ac ystyriwyd personoliaeth a sgiliau rhyngpersonol fel y meini prawf pwysicaf yn ôl 46% o'r atebion. Roedd profiad perthnasol o'r diwydiant hefyd yn faes a nodwyd gan gyfran sylweddol (18.5%) o'r darparwyr llety. Roedd cymwysterau perthnasol i'r diwydiant yn llai pwysig ym marn darparwyr llety gyda dim ond 5.6% o'r atebion o'i gymharu â 15.6% o'r atebion a gafwyd gan fusnesau twristiaeth antur. Unwaith eto, ychydig iawn o ddarparwyr llety a nododd fod sgiliau

TG yn faen prawf pwysig pan yn asesu staff newydd (2.2%) er i 13.8% o'r atebion ei nodi fel maes sydd angen ei wella o ran sgiliau'r staff cyfredol.


Ffigur 3.15. Meini prawf darparwyr llety ar gyfer asesu ymgeiswyr a recriwtio staff newydd

Meini prawf pwysicaf ar gyfer asesu staff newydd	Canran o atebion darparwyr llety
Sgiliau rhyngbersonol	20.2
Profiad diwydiant-berthnasol	18.5
Cymwysterau diwydiant-berthnasol	5.6
Cymwysterau eraill	0.0
Profiad heb fod yn ddiwydiant-berthnasol	4.0
Oed	10.5
Personoliaeth	25.8
Dim hanes o droseddu	9.7
Sgiliau TG	1.6
Arall	4.0

4.4 Hyfforddiant swydd-gysylltiol yn ystod y 12 mis diwethaf


Cafodd cyfanswm o 343 o gyflogeion busnesau twristiaeth antur ryw ffurf ar hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf, sy'n gyfystyr â 27% o gyfanswm nifer cyflogeion y busnesau a holwyd. Roedd oddeutu traean o'r rhain wedi cael hyfforddiant wrth y gwaith, a dim ond un rhan o bump wedi cael hyfforddiant y tu allan i'r gwaith ac roedd 47.5% wedi cymryd rhan mewn cyfuniad o'r ddau fath o hyfforddiant.

Ffigur 3.16b Y math o hyfforddiant a gafodd cyflogeion busnesau twristiaeth antur yn ystod y 12 mis diwethaf



Roedd cyfanswm o 445 o gyflogeion darparwyr llety wedi derbyn rhyw fath o hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf, ac roedd y gyfran honno o'r gweithlu cyfan (67%) yn uwch nag ydoedd ar gyfer busnesau twristiaeth antur. Roedd cyfran uwch o'r rhain (42%) wedi cael hyfforddiant wrth y gwaith gyda dim ond 14% wedi cael hyfforddiant y tu allan i'r gwaith yn unig. Roedd 44% o gyflogeion darparwyr llety wedi cael cyfuniad o hyfforddiant wrth y gwaith a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith.

Ffigur 3.16a Y math o hyfforddiant a gafodd cyflogeion darparwyr llety yn ystod y 12 mis diwethaf



Ffynonellau cyllido hyfforddiant


Roedd bron i 60% o ddarparwyr llety wedi defnyddio eu harian eu hunain i dalu am hyfforddiant a dim ond ychydig mwy na 15% a ddefnyddiodd gyllid gan ELWa. Rhoddodd ADC gyllid i 9% o'r cwmnïau a rhoddodd awdurdodau lleol gyllid i 8% ohonynt.

Ffigur 3.17. Ffynonellau cyllido hyfforddiant darparwyr llety

Dull o gyllido hyfforddiant	Canran o atebion darparwyr llety
Cyllid y cwmni	58.5
Cyllid gan ELWa	15.4
Cyllid gan ADC	9.2
Cyllid gan Awdurdod Lleol	7.7
Arall	9.2

Cyllidodd y mwyafrif o fusnesau twristiaeth antur hefyd (57.1%) eu hyfforddiant trwy ddefnyddio eu harian eu hunain er i 14.3% o'r cwmnïau ddefnyddio cyllid gan awdurdodau lleol – canran sylweddol yn uwch na'r gyfran o ddarparwyr llety. Rhoddodd ADC gyllid i 5.7% o'r cwmnïau a rhoddodd ELWa gyllid i 11.4%.

Ffigur 3.18. Ffynonellau cyllido hyfforddiant busnesau twristiaeth antur



Ffigur 3.19. Ffynonellau Cyllido Hyfforddiant busnesau twristiaeth antur

Dull o gyllido hyfforddiant	Canran o atebion busnesau Twristiaeth Antur
Cyllid y cwmni	57.1
Cyllid gan ELWa	11.4
Cyllid gan ADC	5.7
Cyllid gan Awdurdod Lleol	14.3
Arall	11.4

4.5 Y dulliau hyfforddi mwyaf effeithiol

Gwelwyd patrymau tebyg yn asesiad darparwyr llety a busnesau twristiaeth antur o wahanol ddulliau hyfforddi. Dysgu trwy wneud, profiadau real, profiad perthnasol o'r diwydiant a mentora/hyfforddi a nodwyd gan ddarparwyr llety fel y ffurfiau mwyaf effeithiol ar hyfforddiant. Dywedodd rhwng 18 a 40% o'r darparwyr llety bod cyrsiau ffurfiol, dod â hyfforddwyr allanol i'r man gwaith, prentisiaethau a chynlluniau hyfforddi mewnol yn aneffeithiol. Yr atebion parthed prentisiaethau oedd y mwyaf cyfartal o ran sylwadau positif a rhai negyddol.

Roedd profiad real, mentora/hyfforddi a dysgu trwy wneud hefyd yn bwysig i fusnesau twristiaeth antur o ran eu heffeithiolrwydd fel dulliau hyfforddi. Fe'u barnwyd yn 'effeithiol iawn' gan fwy na 70% o'r rhai a holwyd. Dywedodd bron i 100% o'r rhai a holwyd fod y dulliau hyn – yn ogystal â phrofiad perthnasol o'r diwydiant a chynlluniau hyfforddi mewnol – naill ai'n effeithiol neu'n effeithiol iawn.

4.5.1 Astudiaeth Achos 3

Plas Menai

Plas Menai yw Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Cymru ac mae'n eiddo i Gyngor Chwaraeon Cymru sydd hefyd yn ei rhedeg. Mae'r Ganolfan ger Caernarfon ar lannau'r Fenai yn edrych allan am Ynys Môn.

Lleolwyd y Ganolfan Dŵr Genedlaethol ar lannau'r Fenai am fod yno gysgod ac am ei fod yn lleoliad addas. Gall y ganolfan ddefnyddio'r culfor ar gyfer gweithgareddau hwylio cyffredinol trwy gydol y flwyddyn a chan fod cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd da i Blas Menai, mae'r safle'n hygyrch iawn. Mae 5 ystafell gynadledda yn y ganolfan ac maent yn cynnig ystod helaeth iawn o weithgareddau. Er bod y culfor yn cael ei ddefnyddio trwy gydol y flwyddyn, cynhelir gweithgareddau hefyd mewn amrywiol leoliadau ledled y byd.

Maent wrthi'n ceisio ymestyn hyd y tymor ac maent yn brysur iawn o fis Mawrth hyd fis Tachwedd. Maent bob amser yn chwilio am ffyrdd i arallgyfeirio yn ystod misoedd tawel y gaeaf ac un o'r ffyrdd y maent yn gwneud hynny yw trwy gynnal rhaglenni hyfforddi dramor – ym mis Ionawr, er enghraifft, maent yn cynnal cwrs yn Sbaen.

Mae'r ganolfan yn cynnig unrhyw weithgaredd sy'n ymwneud â dŵr – ac eithrio deifio. Mae ganddynt gychod hwylio, dingis o bob maint, canwod a chychod pŵer. Maent yn rhedeg cyrsiau cyrff llywodraethu cenedlaethol yn ogystal â chysiau hyfforddi preswyl estynedig gyda hyfforddwr. Mae ganddynt weithgareddau awyr agored i ysgolion, sgiliau i blant ar eu pen eu hunain a chysiau theori. Hefyd, mae ganddynt wersylloedd hyfforddi cenedlaethol ar gyfer pob sgwad Cymreig sy'n ymwneud â gweithgareddau dŵr. Mae ganddynt le i hyd at 120 o bobl.

Mae gan y ganolfan 24 o staff llawn amser a gyflogir gan y Cyngor Chwaraeon a chyflogir staff arlwygo a glanhau trwy gwmni preifat. Mae ganddynt hefyd rhwng 12 a 13 o hyfforddwyr tymhorol sydd fel arfer yn weithwyr llawrydd sy'n cael eu recriwtio ar sail enw da. Mae'r hyfforddwyr hyn yn aml yn ystyried y swyddi hyn yn gyfle i ddatblygu eu profiad eu hunain yn hytrach na dim fel cyfle i gael gwaith.

Caiff y staff eu recriwtio o Brydain ac o Ewrop. Caiff yr holl staff domestig a gweinyddol eu recriwtio'n lleol. Gellir rhannu'r hyfforddwyr yn bedair lefel. Mae gan y penaethiaid adran y cymhwyster hyfforddi uchaf bosibl ac maent yn hynod brofiadol. Mae'r lefelau'n cynnwys hyfforddwyr lefel mynediad sydd â llawer o gymwysterau ar lefel isel, ac sy'n gweithio gyda grwpiau lefel mynediad. Gall yr hyfforddwyr symud i fyny'r raddfa o fewn y ganolfan wrth iddynt fagu profiad. Mae'r trosiant staff yn isel ond yn gylchol ac nid yw rhai o'r staff ar gytundeb parhaol. O fewn y sector, mae nifer gynyddol o bobl yn awyddus i weithio ar sail llawrydd gan fod hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt, er nad yw hynny'n addas iawn ar gyfer Plas Menai gan fod y ganolfan yn strwythuredig iawn. Nid oes unrhyw broblemau o ran recriwtio staff cyn belled â bod y cyflogau a gynnigir yn ddigon da. Nid oes unrhyw brinder ymgeiswyr ar gyfer swyddi gyda chyflogau da yn ôl Alan Williams, rheolwr y ganolfan.

Daw'r cleientiaid o bob rhan o'r DG ac Iwerddon, ac mae grwpiau o Ewrop, y Dwyrain Canol a Tsieina a Hong Kong hefyd yn defnyddio'r ganolfan. Ym Mhlas Menai, maent o'r farn ei bod yn bwysig cymryd rôl ragweithiol wrth ddatblygu cysylltiadau gyda'r gymuned leol. Maent yn rhedeg cwrs HND gyda Choleg Menai, y coleg addysg bellach; maent yn gweithio gyda'r Urdd,; y Cyngor Cefn Gwlad; Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon; cwmnïau teledu sy'n cael defnyddio eu cyfleusterau a'u hyfforddiant; ysgolion lleol a Chyngor Gwynedd. Maent yn cynnig cyrsiau lleol yn ystod y gwanwyn, yr haf a'r hydref a hynny am brisiau llawer rhatach na'r arfer. Polisi prynu'r ganolfan yw eu bod yn prynu gan y cyflenwr rhataf. Os gall cwmni lleol gynnig yr un pris â'r rhataf, maent yn falch iawn o brynu'n lleol.

Mae'r ganolfan chwaraeon dŵr genedlaethol yn ganolfan arbenigol ac fe gaiff grant yn sgîl hynny. Y nod hirdymor yw peidio â chael unrhyw gostau rhedeg. Mae'r ganolfan yn adolygu'r cyrsiau a gynnigir bob blwyddyn a phan newidia cyrsiau'r cyrff llywodraethu rhaid i'r ganolfan addasu ei chysiau yn unol â hynny. Mae'r hyn a gynnigir yn aros yn sylfaenol yr un

fath ond maent yn cynnig mwy neu lai o weithgareddau penodol yn ôl y galw. Maent yn ymateb i dueddiadau.

O ran y sector yn gyffredinol, mae Alan Williams o'r farn fod cryn dipyn o orgyffwrdd rhwng y gwasanaethau a gynigir, ond mae unrhyw beth a all helpu i hyrwyddo'r ardal i'w groesawu. Pe gellid cynnig agwedd gydlynol at hyrwyddo hyfforddiant byddai'n helpu'r sector yn fawr yn ei farn ef. Ar hyn o bryd, byddai agwedd mwy unedig yn fanteisiol iawn gan fod y diwydiant mor ranedig gyda chymaint o ffyrdd o gael gwaith ynddo.


Mae Plas Menai yn ganolfan sy'n torri ei chwys ei hun ond mae ei lleoliad a'i chysylltiadau gyda'r gymuned leol yn bwysig iawn iddi.

Cafodd prentisiaethau ymateb cymysg iawn gan fusnesau twristiaeth antur, gyda chyfran debyg o sylwadau positif, positif iawn a negyddol. Dywedodd 30% o'r busnesau twristiaeth antur eu bod yn 'aneffeithiol' (er bod 40% wedi dweud eu bod yn 'effeithiol' a 30% wedi eu galw'n 'effeithiol iawn'). Barnwyd fod cyrsiau hyfforddi ffurfiol (wrth y gwaith a'r tu allan i'r gwaith) yn 'aneffeithiol' gan un o bob pump o'r rhai a holwyd a dyma hefyd y cyrsiau a ddaeth isaf o ran cael eu galw'n 'effeithiol iawn'.

Ffigur 3.20. Dulliau hyfforddi mwyaf effeithiol busnesau twristiaeth antur

Dull hyfforddi	Canran o atebion busnesau Twristiaeth Antur		
	Aneffeithiol	Effeithiol	Effeithiol iawn
Dysgu trwy wneud	1.9	26.9	71.2
Mentora/Hyfforddi	2	26	72
Prentisiaeth	29.7	40.5	29.7
Profiadau Real	0	28	72
Profiad perthnasol o'r diwydiant	0	51.1	48.9
Dod â hyfforddwyr allanol i'r man gwaith	13.9	52.8	33.3
Cynlluniau hyfforddi mewnol	0	50	50
Cyrsiau hyfforddi ffurfiol y tu allan i'r gwaith	17.8	55.6	26.7
Cyrsiau hyfforddi ffurfiol wrth y gwaith	19	61.9	19

Ffigur 3.21. Dulliau hyfforddi mwyaf effeithiol busnesau twristiaeth antur



Ffigur 3.22. Dulliau hyfforddi mwyaf effeithiol darparwyr llety

Dull hyfforddi	Canran o'r atebion		
	Aneffeithiol	Effeithiol	Effeithiol iawn
Dysgu trwy wneud	3.5	22.8	73.7
Mentora/Hyfforddi	4.3	50.0	45.7
Prentisiaeth	26.3	44.7	28.9
Profiadau Real	4.0	32.0	64.0
Profiad perthnasol o'r diwydiant	4.8	50.0	45.2
Dod â hyfforddwr allanol i'r man gwaith	40.5	38.1	21.4
Cynlluniau hyfforddi mewnol	25.6	35.9	38.5
Cyrsiau hyfforddi ffurfiol y tu allan i'r gwaith	31.7	46.3	22.0
Cyrsiau hyfforddi ffurfiol wrth y gwaith	18.4	44.7	36.8
Arall	50.0	0.0	50.0

4.6 Adnoddau hyfforddi cwmnïau

Yr adnoddau hyfforddi sydd ar gael yn fwyaf cyffredin i fusnesau twristiaeth antur yw cynllun hyfforddi a datblygu staff a chyllideb hyfforddi (25.3% o'r atebion yr un). Dywedodd 22 y cant o'r rhai a holwyd nad oedd ganddynt unrhyw un o'r adnoddau hyfforddi a oedd ar gael iddynt a dim ond 7.7% oedd gydag adran hyfforddi.

Ffigur 3.23. Adnoddau hyfforddi o fewn busnesau twristiaeth antur

Adnodd hyfforddi	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Cynllun hyfforddi a datblygu staff	25.3
Cyllideb hyfforddi	25.3
Rheolwr adnoddau dynol	9.9
Rheolwr Personél	7.7
Adran hyfforddi	7.7
Arall	2.2
Dim	22.0

Dywedodd cyfran sylweddol yn fwy o'r darparwyr llety (45%) nad oedd ganddynt unrhyw un o'r adnoddau hyfforddi a restrir isod. Roedd y prif adnoddau a oedd ar gael i ddarparwyr llety yr un fath â'r rhai ar gyfer busnesau twristiaeth antur, ond roedd gan lai o'r rhai a holwyd fynediad i gyfleusterau o'r fath. Roedd gan bymtheg y cant gynllun hyfforddi a datblygu staff ac roedd gan 14% gyllideb hyfforddi.

4.6.1 Astudiaeth Achos 4

Llanberis Surfines.

Busnes preifat yw hwn a sefydlwyd ym mis Medi 2000 gan ddau bartner. Busnes manwerthu ydyw ac mae hefyd yn ganolfan hyfforddi. Mae'r busnes wedi ei leoli ar stâd ddiwydiannol fechan yn Llanberis ar lan y llyn, ac maent yn arbenigo mewn chwaraeon canŵa. Mae'n farchnad arbenigol ac mae'n creu incwm sylweddol. Ar y cychwyn roedd y busnes wedi ei rannu rhwng y ddwy elfen wahanol yn ôl 80% o fanwerthu a 20% o hyfforddi, ond bellach mae'r gymhareb wedi newid i 65% o fanwerthu a 35% o hyfforddi. Mae'r elfen fanwerthu o'r busnes wedi cynnal yr elfen hyfforddi yn y gorffennol, ond nid gwerth ariannol yw'r brif ystyriaeth gan eu bod yn awyddus i gael eu cydnabod am y ddwy elfen o'r busnes. Mae'r cwmni wedi datgan elw bychan bob blwyddyn. Yn 2002, agorodd y cwmni siop dymhorol ar stryd fawr y pentref. Yn 2002 fe'i hagogwyd trwy gydol misoedd y gaeaf, ond yn 2003 fe'i caewyd yn ystod y Nadolig a'r Pasg. Pwrpas y siop ar y stryd fawr oedd datblygu'r farchnad leol yn hytrach na'r fasnach dwristiaidd. Mae'r partneriaid o'r farn fod gan hyn botensial ac mae ganddynt gwsmeriaid cyson yn y siop, ond ar hyn o bryd mae'n rhoi pwysau ar agweddau eraill y busnes.

Mae'r cwmni'n rhedeg gweithgareddau ar gyfer ysgolion a cholegau sydd yn trefnu eu llety eu hunain. Mae'r ddau bartner yn rhedeg y cyrsiau a chyflogir tua 4 arall yn llawn amser i gynnal y cyrsiau. Mae'r hyfforddwyr hyn wedi cymhwyso ar gyfer y cyrsiau penodol y maent yn eu rhoi. Y cymwysterau sydd eu hangen i weithio i'r cwmni yw hyfforddiant lefel 2, o leiaf, Cymhwyster Undeb Canŵa Prydain; 'single pitch award' yr MLTB a chymhwyster arweinydd mynyddoedd. Yn ddelfrydol, bydd gan yr hyfforddwyr gymwysterau a phrofiad hefyd ym maes arwain pobl ifanc. Nid yw'r cwmni'n hysbysebu am staff gan fod pobl yn dod atynt hwy yn cynnig eu gwasanaethau. Fel arfer, pobl yw'r rheiny sydd eisoes yn byw ac yn gweithio yn yr ardal. Mae ethos y cwmni'n bur wahanol i weithio mewn canolfan fawr. Mae staff yn aml yn symud ymlaen gan fod natur gweithwyr llawrydd yn golygu eu bod yn hoffi'r rhyddid i deithio.

Mae Surfines yn sicr yn fusnes sydd wedi ei eni a'i fagu yn Llanberis ac mae hynny'n bwysig i'r cwmni. Seiliwyd y penderfyniad i ddod i Lanberis ar y ffaith fod cymaint o botensial yn yr ardal ac am ei fod yn fan naturiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored, er eu bod o'r farn eu bod wedi creu eu marchnad eu hunain. Mae yna gymuned fusnes anghystadieuol yn y pentref ac mae'r bobl leol yn gefnogol iawn i'r busnes, yn ôl Nick Cunliffe, un o'r partneriaid sy'n rhedeg y cwmni. Mae'r cwmni'n gweithio gyda busnesau lleol eraill gan ei fod yn argymhell lletyau i'w cwsmeriaid o fewn yr ardal – anfonir taflen wybodaeth at gwsmeriaid sy'n enwi gwystai yn Llanberis. Gwna'r cwmni bob ymdrech i wario ei arian yn lleol lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Prynir stoc yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ac yn Lerpwl mae'r cyflenwr agosaf. Gwneir gwaith marchnata'r cwmni yn Llandudno. Mae'r cwmni wedi hysbysebu mewn cylchgronau arbenigol yn y gorffennol, ond gan fod eu cwsmeriaid yn aml yn bobl sydd heb gymryd rhan mewn chwaraeon o'r blaen nid ydynt fel arfer yn darllen cyhoeddiadau o'r fath ac ni chafodd y cwmni fudd mawr o'r ffurf hwn ar farchnata. Ar hyn o bryd, mae'r cwmni'n ansicr ynghylch sut i hysbysebu mwy. Mae cyfyngiadau i dwf y cwmni. Ac mae rhai ffactorau sy'n rhwystro'r potensial lleol. Mae materion o ran mynediad ac mae rhai cyfyngiadau ar y llyn. Ni cheir defnyddio moduron ar y llyn, ac mae'r cwmni'n cefnogi hynny, ond dim ond pysgotwyr sydd gyda mynediad i 25% o'r llyn ac mae hynny'n peri cryn siomedigaeth i'r cwmni. Nid oes mynediad i'r Afon Seiont sy'n afon o'r radd flaenaf ar gyfer chwaraeon dŵr, gan mai dim ond ar gyfer pysgota y'i defnyddir. Gellid defnyddio'r hen chwareli lleol fel lleoliad seiclo o safon fyd-eang yn ogystal â pharagleidio, ond eto mae materion yn ymwneud â mynediad. Y fantais yw y gallant fod yn hyblyg a chynniig rhaglen hyblyg.

Mae'r cwmni o'r farn fod mwy o ddiddordeb yn y math hwn o chwaraeon a bod eu presenoldeb hwy wedi ennyn mwy o ddiddordeb lleol. Credant eu bod wedi gwneud gwahaniaeth gan eu bod yn helpu pobl i gychwyn gyda'r gweithgaredd. Mae'r cwmni'n credu y gall cynniig gwasanaeth mwy cyfeillgar ac anffurfiol na'r canolfannau mwy a gall pobl alw heibio'r siop ac archebu lle ar gwrs yn y fan a'r lle. Yn ystod yr haf maent yn denu twristiaid a nifer o unigolion sydd yn awyddus i gael blas a phrofiad cychwynnol o'r gweithgaredd. Y fantais sydd ganddynt dros y canolfannau mwy yw y gallant fod yn hyblyg a chynniig rhaglen hyblyg. Maent yn cynniig gwasanaeth anffurfiol a gall pobl alw heibio'r siop ac archebu cwrs yn y fan a'r lle. Mae elfen bersonol i'r gwasanaeth a gynigir ac mae hyn yn ddeniadol iawn i lawer o'r cwsmeriaid. Yn aml, dennir y cwsmeriaid ar ôl codi taflen mewn canolfan dwristiaid. Daw cwsmeriaid o bob rhan o'r DG ond mae'r cwsmeriaid o Ogledd Cymru dod yno'n bennaf trwy raglenni ieuencid Gyrrfa Cymru ac mae'r rhain yn rhedeg trwy gydol y flwyddyn. Maent hefyd yn gweithio gyda Goriad –Bangor, rhai o ysgolion Gogledd Cymru ac maent bellach wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd sydd wedi llwyddo i gael arian o

gronfa amcan 1. Gallai hyn arwain at roi masnachfaint i Llanberis Surfines i redeg cyrsiau yng nghanolfan Rhyd-Ddu, y mae Cyngor Gwynedd yn berchen arni.

Mae'r cwmni wedi cael llawer o gefnogaeth o ran cyngor busnes gan gyrff yn cynnwys yr ADC sydd wedi mynd i'r afael â'r prif ddiffygion. Mae'r cwmni o'r farn y gallai Eryri Bywiol fod yn rym lobbio defnyddiol a fyddai'n anuniongyrchol fanteisiol iddynt.

Ffigur 3.24. Adnoddau hyfforddi sydd gan ddarparwyr llety

Adnodd hyfforddi	Canran o atebion darparwyr llety
Cynllun hyfforddi a datblygu staff	15.2
Cyllideb hyfforddi	13.9
Rheolwr adnoddau dynol	6.3
Rheolwr Personél	8.9
Adran hyfforddi	7.6
Arall	3.8
Dim	44.3

4.7 Cyfyngiadau i Hyfforddiant

Dyweddodd mwy na 30% o'r busnesau twristiaeth antur nad oes unrhyw gyfyngiadau ar pa gyflogeion a fyddai'n cymryd rhan mewn hyfforddiant. Y rhwystrau i hyfforddiant a restrwyd amlaf oedd diffyg amser, cost hyfforddiant a chost staff cyflenwi.

Ffigur 3.25. Cyfyngiadau ar hyfforddiant mewn busnesau twristiaeth antur

Rhwysterau i hyfforddi cyflogeion presennol	Canran o fusnesau twristiaeth antur
Dim rhwystrau	30.2
Diffyg amser	30.2
Hyfforddiant yn rhy ddrud	28.6
Y busnes yn methu â fforddio cyflogi staff cyflenwi	27.0
Diffyg staff llanw	17.5
Sgiliau a chymwysterau'r staff eisoes yn ddigonol	14.3
Staff unigol ddim yn gymwys ar gyfer grantiau cefnogi hyfforddiant	9.5
Y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael yn anaddas ar gyfer anghenion y busnes	9.5
Y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael yn anaddas ar gyfer anghenion staff unigol	9.5
Natur anragwladwy y busnes	4.8
Y busnes yn ofni y bydd y staff yn gadael ar ôl yr hyfforddiant	3.2
Arall	3.2

Dyweddod mwy na chwarter y darparwyr llety nad oedd unrhyw rwystrau'n wynebu eu cyflogeion. Y rhwystrau mwyaf cyffredin oedd diffyg amser, staff ddim yn gymwys ar gyfer grantiau cefnogi hyfforddiant a chostau staff cyflenwi.

Ffigur 3.26. Cyfyngiadau ar hyfforddiant ymhlith darparwyr llety

Rhwystrau i hyfforddi cyflogeion presennol	% o'r darparwyr llety
Dim rhwystrau	26.8
Diffyg amser	21.1
Hyfforddiant yn rhy ddrud	9.9
Y busnes yn methu â fforddio cyflogi staff	16.9
Diffyg staff llanw	4.2
Sgiliau a chymwysterau'r staff eisoes yn ddigonol	5.6
Staff unigol ddim yn gymwys ar gyfer grantiau cefnogi hyfforddiant	19.7
Y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael yn anaddas ar gyfer anghenion y busnes	9.9
Y cyrsiau hyfforddi sydd ar gael yn anaddas ar gyfer anghenion staff unigol	4.2
Natur anragweladwy y busnes	5.6
Y busnes yn ofni y bydd y staff yn gadael ar ôl yr hyfforddiant	8.5
Arall	2.8

4.8 Y Defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth

Y gweithgareddau cyfrifiadurol mwyaf cyffredin ymhlith y busnesau twristiaeth antur a holwydr yw anfon negeseuon e-bost, hyrwyddo'r busnes trwy wefan, pori'r we a chadw cofnodion ariannol. Dim ond 3.2% o'r busnesau twristiaeth antur a ddywedodd nad ydynt yn defnyddio cyfrifiadur.

Ffigur 3.27. Y defnydd o dechnoleg gwybodaeth gan fusnesau twristiaeth antur

Gweithgareddau cyfrifiadurol y busnes	Canran o fusnesau twristiaeth antur
Cadw cofnodion ariannol	76.2
Anfon a derbyn e-bost	90.5
Pori'r we	79.4
Prynu nwyddau/offer ar-lein	65.1
Derbyn archebion trwy wefan	47.6
Hyrwyddo gweithgareddau'r busnes ar wefan	82.5
Arall	7.9
Dim yn defnyddio cyfrifiadur	3.2

Y gweithgareddau cyfrifiadurol mwyaf cyffredin ymhlith y darparwyr llety a holwyd yw anfon negeseuon e-bost, pori'r we, hyrwyddo'r busnes trwy wefan a derbyn archebion ar-lein, cadw cofnodion ariannol a phrynu nwyddau/offer. Dywedodd pob un o'r darparwyr llety eu bod yn defnyddio cyfrifiaduron.

Ffigur 3.28. Y defnydd o dechnoleg gwybodaeth gan ddarparwyr llety

Gweithgareddau cyfrifiadurol y busnes	Canran o ddarparwyr llety
Cadw cofnodion ariannol	59.2
Anfon a derbyn e-bost	91.5
Pori'r we	85.9
Prynu nwyddau/offer ar-lein	60.6
Derbyn archebion trwy wefan	70.4
Hyrwyddo gweithgareddau'r busnes ar wefan	77.5
Arall	8.5
Dim yn defnyddio cyfrifiadur	0.0

4.9 Yr heriau sy'n wynebu'r Sector Twristiaeth Gweithgareddau Antur

Gofynnwyd i fusnesau twristiaeth nodi'r prif faen tramgwydd sy'n effeithio ar eu busnes a'r ddau brif fater a nodwyd oedd mynediad a chyllid. Mae cael mynediad i ddyfroedd mewndirol yn broblem a wynebir gan lawer o weithredwyr, ac mae eraill yn ei chael yn anodd cael mynediad i leoliadau addas ar gyfer gweithgareddau'n gyffredinol. O ran cyllid, beirniadodd llawer o'r rhai a holwyd "gostau cynyddol

yswiriant", ond wynebai eraill drafferthion hefyd o ganlyniad i dynhau cyllidebau ysgolion ac awdurdodau lleol neu gynlluniau grant anhyblyg. Ymhlith yr heriau eraill a wynebir gan fusnesau roedd cystadleuaeth gynyddol gan ddarparwyr eraill a dod o hyd i staff dibynadwy, a chyfeiriodd ambell un at faterion na all Eryri Bywiol ddylanwadu arnynt na chyfrannu atynt, megis y gyfradd gyfnewid a'r tywydd.

Gofynnwyd i'r busnesau yn yr holiadur fanylu ynghylch y gwasanaethau cefnogi a fyddai'n ddefnyddiol iddynt hwy. Dywedodd un o bob pump o'r rhai a holwyd y byddai gwasanaeth marchnata cynnyrch / gwasanaethau yn ddefnyddiol. Yn ogystal, cyfeiriodd 15% at gyfleoedd rhwydweithio, soniodd 15% am hyfforddiant/cefnogaeth TG a nodwyd ymchwil marchnata gan 11% o'r busnesau.

Ffigur 3.29. Gwasanaethau cefnogi a fyddai'n ddefnyddiol i fusnesau twristiaeth antur

Pa wasanaethau a fyddai'n ddefnyddiol i gefnogi eich busnes?	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Marchnata	20.1
Cyfleoedd Rhwydweithio	15.6
Datblygu Cynnyrch	9.0
Awdit Sgiliau	1.0
Hyfforddiant a Chefnogaeth TG	11.1
Cyngor adolygu/cynllunio busnes	7.5
Hyfforddiant rheoli	6.5
Cefnogaeth gyfreithiol	7.0
Cael gafael ar offer/cyngor arbenigol	4.5
Ymchwil marchnata	10.6
Recriwtio a datblygu staff	6.0
Arall	1.0

Marchnata oedd y gwasanaeth a nodwyd amlaf gan ddarparwyr llety fel yr un a fyddai'n ddefnyddiol iddynt. Nodwyd hyfforddiant a chefnogaeth TG gan sawl un hefyd, ynghyd ag ymchwil marchnata, recriwtio a chyfleoedd rhwydweithio.

Ffigur 3.30. Gwasanaethau cefnogi a fyddai'n ddefnyddiol i ddarparwyr llety

Pa wasanaethau a fyddai'n ddefnyddiol i gefnogi eich busnes?	Canran o atebion y darparwyr llety
Marchnata	22.3
Cyfleoedd Rhwydweithio	10.2
Datblygu Cynnyrch	4.5
Awdit Sgiliau	1.3
Hyfforddiant a Chefnogaeth TG	14.6
Cyngor adolygu/cynllunio busnes	7.6
Hyfforddiant rheoli	3.2
Cefnogaeth gyfreithiol	5.7
Cael gafael ar offer/cyngor arbenigol	3.8
Ymchwil marchnata	12.7
Recriwtio a datblygu staff	10.2
Arall	3.8

4.10 Effaith y sector gweithgareddau awyr agored ar yr economi lleol

Dywedodd darparwyr llety mai ar hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru a chynyddu twristiaeth y caiff y sector gweithgareddau awyr agored yr effaith fwyaf sylweddol. Nodwyd adfywiad a chyfleoedd gwaith hefyd fel meysydd yr effeithir arnynt yn helaeth gan y sector hwn ond nid oedd y rhai a holwyd mor glir ynghylch yr effaith o ran mwy o draffig a'r amgylchedd.

Ffigur 3.31. Argraffiadau'r darparwyr llety parthed effaith y sector gweithgareddau awyr agored ar yr economi lleol

Effaith y sector gweithgareddau awyr agored ar...	Canran o atebion y darparwyr llety				
	Dim effaith		Effaith sylweddol		
	1	2	3	4	5
Hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru	1.4	4.2	11.1	30.6	52.8
Cynyddu Twristiaeth	2.8	4.2	16.7	29.2	47.2
Adfywio	10	4.3	27.1	35.7	22.9
Mwy o gyfleoedd gwaith	7	9.9	16.9	32.4	33.8
Mwy o draffig ffordd	4.2	15.5	32.4	31	16.9
Gwella'r amgylchedd	13	10.1	40.6	27.5	8.7
Arall	16.7	0	0	0	83.3

Ffigur 3.32. Argraffiadau'r busnesau twristiaeth antur parthed effaith y sector gweithgareddau awyr agored ar yr economi lleol

Effaith y sector gweithgareddau awyr agored ar...	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur				
	Dim effaith			Effaith sylweddol	
	1	2	3	4	5
Hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru	0	3.5	5.3	28.1	63.2
Cynyddu Twristiaeth	0	0	10.5	36.8	52.6
Adfywio	1.9	7.5	17	37.7	35.8
Mwy o gyfleoedd gwaith	3.6	7.1	16.1	33.9	39.3
Mwy o draffig ffordd	5.4	16.1	25	35.7	17.9
Gwella'r amgylchedd	5.7	11.3	39.6	34	9.4
Arall	0	0	33.3	0	66.7

Yn ôl y busnesau a holwyd, caiff y sector gweithgareddau awyr agored yr effaith fwyaf sylweddol ar hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru. Sgoriodd y sector 4 neu 5, ar raddfa o 1 (dim effaith) i 5 (effaith sylweddol), gan 90% am ei effaith yn hyn o beth. Rhoddodd dros hanner y rhai a holwyd sgôr o 5 i'r sector am gynyddu twristiaeth, a dywedodd mwy na thraean fod y sector yn cael effaith sylweddol ar adfywio a chynyddu cyfleoedd gwaith.

Roedd y farn am effaith y sector o ran cynyddu traffig yn rhanedig, gyda 21.5% yn rhoi sgôr o 1 neu 2 iddo, a 53.6% yn rhoi sgôr o 4 neu 5. Roedd yr atebion a gafwyd parthed effaith y sector ar wella'r amgylchedd yn fwy amwys, a rhoddodd tua 40% sgôr o 3. Yn gyffredinol, roedd busnesau twristiaeth antur yn fwy positif ynghylch effaith y sector gweithgareddau awyr agored. O ran hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru – rhoddodd 91.3% o'r busnesau twristiaeth antur 4 neu 5 iddo, o'i gymharu â 83.4% o'r darparwyr llety. Roedd busnesau twristiaeth antur hefyd yn fwy positif am effaith y sector ar dwristiaeth – 89.4% yn rhoi 4 neu 5 iddo o'i gymharu â 76.4% o'r darparwyr llety.

O ran adfywio a chynyddu cyflogaeth, rhoddodd mwy na 73% o'r busnesau twristiaeth antur sgôr o 4 neu 5 i'r sector am ei effaith ar y ddwy elfen hyn o'i gymharu â 58% a 66% o'r darparwyr llety. Yn ddiddorol ac yn baradocsaid ddigon, credai mwy o'r busnesau twristiaeth antur nag o'r darparwyr llety y byddai'r sector yn cael effaith sylweddol o ran cynyddu traffig a gwella'r amgylchedd.

4.11 Dulliau Hysbysebu Busnesau

Y dull mwyaf poblogaidd o hysbysebu ymhlith darparwyr llety oedd trwy wefan y busnes ac yna ar lafar gwlad, trwy lyfrynnau print a chyhoeddiadau Bwrdd Croeso Cymru. Y wasg genedlaethol a lleol oedd y dulliau mwyaf amhoblogaidd o hysbysebu.

Ffigur 3.33. Dulliau hysbysebu darparwyr llety

Dull o Hysbysebu	Canran o atebion darparwyr llety
Gwefan y busnes	26.3
Ar lafar gwlad	17.1
Llyfrynnau/taflenni print	14.5
Cyhoeddiadau BCC	14.5
Dim yn hysbysebu	1.3
Y wasg genedlaethol	1.3
Cyhoeddiadau twristiaeth eraill	10.5
Cyhoeddiadau arbenigol	10.5
Y wasg leol	3.9

Y dull mwyaf cyffredin o hysbysebu a ddefnyddir gan fusnesau twristiaeth antur oedd trwy eu gwefan, ac yna llyfrynnau/taflenni print, cyhoeddiadau Bwrdd Croeso Cymru, cyhoeddiadau arbenigol a llafar gwlad. Roedd y pum dull hyn yn cyfrif am 80% o'r atebion.

4.11.1 Astudiaeth Achos 5

Dewi Evans, Eryr Evans. Stryd Fawr Y Bala.

Sefydlwyd y busnes hwn ym 1994 fel siop tacl pysgota ond yn sgîl lleihad ym mhoblogrwydd yr hobi hwn a bwlch yn y farchnad newidiodd ym 1997 o fod yn siop offer/dillad gweithgareddau awyr agored. Mae'r siop ar y Stryd Fawr yn Y Bala ac mae'n cyflogi un person llawn amser a 2 berson rhan amser. Mae'r siop yn darparu'n bennaf ar gyfer cerddwyr/mynyddwyr ond mae ganddi hefyd gysylltiadau gyda chwaraeon dŵr ac maent yn darparu offer ar gyfer y sector hwnnw – yn sgîl ei lleoliad ger Llyn Tegid a'r Ganolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol, Canolfan Tryweryn.

Yr ymwelwyr hŷn sy'n dueddol o wario mwyaf yn y siop. Mae'r gymuned leol yn hynod gefnogol ond ardal fach ydyw ac mae'r cwmni'n dibynnu ar ymwelwyr. Mae pobl sy'n aros yn y meysydd carafannau cyfagos yn gwsmeriaid cyson. Wedi dweud hynny, mae perchennog y siop yn hybu diddordeb o fewn y gymuned leol trwy drefnu teithiau cerdded ac mae taith i Nepal yn yr arfaeth.

Mae cysylltiadau gyda busnesau eraill yn yr ardal a rhoddir gostyngiad o 10% i gwsmeriaid sy'n aros mewn llety penodol. Ni phrynrir llawer o'r stoc yn lleol. Mae'r cyflogeon yn lleol, ac yn siarad Cymraeg a chânt eu recriwtio trwy gysylltiadau lleol. Cânt eu recriwtio ar sail profiad perthnasol a sgiliau rhyngbersonol. Ym mam Dewi, mae'r sector gweithgareddau awyr agored yn cael effaith sylweddol o ran hyrwyddo Gogledd Orllewin Cymru.

Caiff y rhan fwyaf o'r arian ar hysbysebu'r busnes ei wario mewn cyhoeddiadau arbenigol. Mae'r gwariant arall yn cael ei wneud ar hysbysebion yn y wasg leol a thafleuni. Mae'r cwmni'n gynyddol ddefnyddio ei wefan i ennill busnes. Rhywbeth diweddar iawn yw hyn a hyd at ddim ond ychydig wythnosau cyn y Nadolig byddent wedi dweud nad yw'r wefan yn dod ag unrhyw fusnes iddynt – fodd bynnag, newidiodd hynny er gwell yn yr wythnos cyn y cyfweiliad. Mae'r busnes yn dal i deimlo effeithiau argyfwng clwy'r traed a'r genau i ryw raddau a'r ffaith na fedrent gael gwared â stoc bryd hynny. Daw'r cwsmeriaid o Fanceinion, Lerpwl, Canolbarth Lloegr, Machynlleth, Yr Wyddgrug – a dennir hwy yn bennaf oherwydd sôn am y siop, er fod y rhyngrwyd yn dod yn fwyfwy defnyddiol.

Mae'r Bala ar gyrion Parc Cenedlaethol Eryri. Mae Dewi Evans o'r farn fod y Parc ar hyn o bryd yn ffafrio rhai ardaloedd ac yn esgeuluso eraill. Yn ei farn ef, mae Llyn Tegid, llyn naturiol mwyaf Cymru, fel petai'n cael ei anwybyddu gan yr awdurdodau. Mae hyn yn rhoi ardaloedd fel Y Bala dan anfantais, er gwaetha'r ffaith ei bod mor agos at Yr Wyddfa ac yn ganolfan chwaraeon dŵr heb ei hail. Yn hyn o beth, mae'n teimlo bod peidio â bod o fewn ffiniau'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith negyddol ar lwyddiant y busnes. Ymhob agwedd arall ar y busnes, mae'n teimlo fod bod o fewn y parc cenedlaethol yn dylanwadu'n bositif, i ryw raddau, ar ei fusnes.

Mae llawer o bobl yn ymweld ag ardal Y Bala oherwydd y gweithgareddau dŵr sydd ar gael yng Nghanolfan Tryweryn. 'Mae'r adnoddau yma i'w cael yn yr ardal, ond ni all neb benderfynu ymhle yr ydym – ai yng ngogledd ynteu yng nghanolbarth Cymru, ac o dan bwy y gweithredwn ac y cyflwynwn ein hunain', meddai Mr.Evans. Efallai mai'r hyn sydd ei angen, yn ei farn ef, yw canolfan wybodaeth yn Y Bala.

Ffigur 3.34. Dulliau hysbysebu busnesau twristiaeth antur

Dull hysbysebu	Canran o fusnesau twristiaeth antur
Dim yn hysbysebu	2.4
Llafar Gwlad	15.9
Y Wasg leol	8.7
Y Wasg genedlaethol	4.4
Llyfrynnau/taflenni print	16.7
Cyhoeddiadau BCC	15.9
Cyhoeddiadau twristiaeth eraill	4.4
Cyhoeddiadau arbenigol	13.1
Gwefan y busnes	18.7

Safonau Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer darparwyr llety

Roedd y mwyafrif o'r darparwyr llety a holwyd (56%) yn rhai a ddynodwyd yn 3 neu'n 4 seren gan Fwrdd Croeso Cymru. Roedd bron i draean yn rhai 3 seren, un rhan o bump yn 2 neu'n 3. Dynodwyd saith y cant yn lletyau pum seren.

Ffigur 3.35. Safonau Bwrdd Croeso Cymru ar gyfer darparwyr llety

Safon Bwrdd Croeso Cymru	Canran o atebion darparwyr llety
1*	1.4
2*	18.3
3*	22.5
3*/4*	1.4
4*	32.4
4*/5*	4.2
5*	7.0
D/A	12.7

Darparwyr llety: Nifer y nosweithiau/gwely, cost y noson a nifer cyfartalog yr ymwelwyr

Gallai'r darparwyr llety a holwyd ddarparu ar gyfer cyfanswm o 17,949 o nosweithiau/gwely yr wythnos – cyfartaledd o fwy na 252 yr un. Dengys tabl 3.36 isod amrediad maint y lletyau o ran nosweithiau/gwely. Dylid nodi fod un darparydd llety yn cyfrif am 7000 o nosweithiau/gwely er bod y rhan fwyaf ohonynt (72%) yn darparu ar gyfer 200 neu lai.

Roedd y 9 darparydd llety a gyfeiriai atyn eu hunain fel gweryslyoedd a meysydd carafannau yn cyfrif am 10,042, neu 56% o'r cyfanswm. O dynnu'r rhain o'r cyfrif ceir cyfanswm o 7907 o nosweithiau/gwely yr wythnos neu gyfartaledd o 128 y llety.

Ffigur 3.36. Nifer nosweithiau/gwely darparwyr llety

Nifer y nosweithiau/gwely yr wythnos	Canran o atebion y darparwyr llety
0 - 25	27.6
26 - 50	10.3
50 - 100	15.5
100 - 200	19.0
200 - 300	8.6
300 - 500	10.3
500 - 1000	3.4
1000 +	5.2

Ar gyfartaledd roedd y lletyau yn 75% llawn rhwng Ebrill a Medi, ond rhwng Hydref a Mawrth, 40% oedd y cyfartaledd hwnnw. Dengys y tabl 3.36 a thabl 3.37 isod wasgariad darparwyr llety gyda gwahanol gyfraddau ymwelwyr rhwng Ebrill a Medi ac o Hydref hyd Mawrth.

Ffigur 3.37. Cyfraddau Cyfartalog Ymwelwyr Ebrill – Medi

Cyfraddau Cyfartalog Ymwelwyr Ebrill – Medi	% o atebion y darparwyr llety
25% - 50%	13.6
50% - 75%	32.2
75% - 100%	54.2

Ffigur 3.38. Cyfraddau Cyfartalog Ymwelwyr Ebrill – Medi

Cyfraddau Cyfartalog Ymwelwyr Hyd – Mawrth	% o atebion darparwyr llety
25% - 50%	37.7
50% - 75%	34.0
75% - 100%	17.0

Roedd tua hanner y darparwyr llety yn codi rhwng £10 a £30 am aros un noson. Dywedodd y gyfran fwyaf o'r darparwyr llety (28% ohonynt) eu bod yn codi rhwng £20 a £30, gydag ychydig llai na 15% ohonynt yn codi llai na £10 y noson ar gyfartaledd.

Roedd cyfartaledd pris 17% o'r rhai a holwyd rhwng £30 a £40, dywedodd 8.6% o'r darparwyr eu bod yn codi rhwng £40 a £50 am lety, a dywedodd yr un gyfran eu bod yn codi mwy na £50.

Ffigur 3.39. Cyfartaledd pris darparwyr llety am un noson

Cyfartaledd pris am un noson	Canran o atebion y darparwyr llety
Llai na £10	14.3
£10 - £20	22.9
£20 - £30	28.6
£30 - £40	17.1
£40 - £50	8.6
Mwy na £50	8.6

Cyfranogiad gwesteion darparwyr llety mewn gweithgareddau awyr agored

Ar gyfartaledd, 55% oedd y ganran a nodwyd gan ddarparwyr llety fel y ganran o'u hymwelwyr sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Gwelir gwasgariad yr atebion a gafwyd gan ddarparwyr llety yn nhabl x isod.

Ffigur 3.40. Cyfranogiad gwesteion darparwyr llety mewn gweithgareddau awyr agored

Canran o'r gwesteion sy'n cymryd rhan mewn Gweithgareddau Awyr Agored	Canran o atebion darparwyr llety
0% - 25%	25.4
25% - 50%	25.4
50% - 75%	20.6
75% - 100%	28.6

Busnesau Twristiaeth Antur: Pwysigrwydd cymharol gweithgareddau awyr agored

Gofynnwyd i fusnesau twristiaeth antur raddio pwysigrwydd gweithgareddau awyr agored o 1 (lleiaf pwysig) i 5 (pwysicaf).

Y gweithgareddau a oedd bwysicaf (gyda'r ganran uchaf o '5') i fusnesau twristiaeth antur oedd cerdded ar ucheldir ac ar dir isel, a dringo creigiau. Yn ôl y drefn honno, cafodd y gweithgareddau hyn sgôr o 5 gan 50%, 43% a 42%. Dengys ffigur 3.41 isod y ganran o atebion ym mhob categori gogyfer â phob gweithgaredd.

Y gweithgareddau eraill (a nodwyd gan lai na 5 o atebwyr yr un) oedd tonfyrddio, cyfeiriadu, hwylfyrddio, caiacio môr, caiacio, archwilio mwynefydd, sgrialu ('skateboarding'), marchogaeth a sgwba-blymio.

Ffigur 3.41. Pwysigrwydd gweithgareddau i fusnesau twristiaeth antur

	Dim yn berthnasol	Lleiaf pwysig				Pwysicaf
	0	1	2	3	4	5
Cerdded ar ucheldir	14.6	6.3	2.1	8.3	18.8	50.0
Cerdded ar dir isel	8.2	8.2	10.2	16.3	14.3	42.9
Dringo creigiau	8.9	11.1	11.1	13.3	13.3	42.2
Sgramblo Ceunentydd	14.0	14.0	18.6	11.6	16.3	25.6
Canŵa	28.9	22.2	11.1	6.7	8.9	22.2
Caiaacio	26.1	17.4	10.9	10.9	13.0	21.7
Beicio Mynydd	20.8	22.9	20.8	14.6	6.3	14.6
Caiaacio Môr	29.8	25.5	14.9	6.4	10.6	12.8
Traws-hwyllo môr	20.9	32.6	9.3	16.3	9.3	11.6
Hwyllo	53.3	17.8	4.4	8.9	6.7	8.9
Rafftio dŵr gwyn	50.0	26.2	4.8	4.8	7.1	7.1

4.12 Cysylltiadau gyda busnesau eraill

Dywedodd ychydig dros hanner y busnesau twristiaeth a holwyd fod gan eu cwmni gysylltiadau gyda busnesau eraill.

Ffigur 3.42. Cysylltiadau Busnesau Twristiaeth Antur gyda busnesau eraill

Cysylltiadau gyda busnesau eraill	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Oes	50.9
Nac oes	49.1

Dywedodd y mwyafrif o'r darparwyr llety (mwy na 75%) nad oedd ganddynt unrhyw gysylltiadau gyda busnesau eraill.

Ffigur 3.43. Cysylltiadau darparwyr llety gyda busnesau eraill

Cysylltiadau gyda busnesau eraill	Canran o atebion y darparwyr llety
Oes	24.6
Nac oes	75.4

Busnesau gyda Thrwydded AALA

Dywedodd ychydig mwy na chwarter y busnesau twristiaeth antur fod ganddynt drwydded AALA (Awdurdod Trwyddedu Gweithgareddau Antur) a dywedodd 72.5% nad oes ganddynt drwydded o'r fath.

Ffigur 3.44. Busnesau Twristiaeth Antur sy'n ddeiliaid Trwydded AALA

A oes gan y busnes drwydded AALA?	Canran o atebion y Busnesau Twristiaeth Antur
Oes	27.5
Nac oes	72.5

O'r 26 o fusnesau twristiaeth antur heb drwydded AALA, dim ond 19% a ddywedodd fod hynny wedi rhwystro neu gyfyngu ar weithgareddau eu busnes.

Ffigur 3.45. Effeithiau bod heb drwydded AALA ar fusnesau Twristiaeth Antur

A yw bod heb Drwydded AALA yn rhwystr i'r busnes?	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Ydy	19.2
Nac ydy	80.8

Achrediad Bwrdd Croeso Cymru

Roedd llai na 15% o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd yn meddu ar achrediad gan Fwrdd Croeso Cymru.

Ffigur 3.46. Busnesau Twristiaeth Antur gydag achrediad gan Fwrdd Croeso Cymru

A oes gan y busnes Achrediad gan BCC?	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Oes	14.8
Nac oes	85.2

Dim ond llai na 10% o'r busnesau twristiaeth antur nad ydynt yn meddu ar achrediad gan Fwrdd Croeso Cymru a ddywedodd fod hynny wedi rhwystro neu gyfyngu ar eu busnes.

Ffigur 3.47. Cyfyngiadau yn sgil peidio â chael trwydded BCC ar fusnesau twristiaeth antur.

A yw peidio â chael Achrediad BCC yn rhwystr i'r busnes?	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Ydy	8.3
Nac ydy	91.7

Achrediadau eraill

Roedd mwy na hanner y busnesau twristiaeth antur a holwyd yn meddu ar ryw ffordd arall ar achrediad.

Ffigur 3.48. Busnesau Twristiaeth Antur gydag achrediad arall

Achrediad arall	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Ydy	54.0
Nac ydy	46.0

Dyweddod 11 y cant o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd fod achrediadau eraill a gofynion cyfreithiol yn rhwystro gweithrediadau neu ddatblygiad eu busnes.

Ffigur 3.49. Rhwystrau achrediadau eraill / gofynion cyfreithiol ar fusnesau twristiaeth antur

A oes unrhyw achrediadau eraill neu ofynion cyfreithiol yn rhwystro i'ch busnes?	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Oes	11.1
Nac oes	88.9

4.13 Lleoliad o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

Roedd bron i dri chwarter y busnesau twristiaeth antur wedi eu lleoli o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri.

Ffigur 3.50. Busnesau Twristiaeth Antur wedi eu lleoli o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

O fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri?	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Ydy	74.5
Nac ydy	25.5

Ychydig dros hanner y darparwyr llety a oedd wedi eu lleoli o fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri.

Ffigur 3.51. Lleoliad darparwyr llety o fewn Parc Cenedlaethol Eryri

O fewn ffiniau Parc Cenedlaethol Eryri?	Canran o atebion y darparwyr llety
Ydy	54.3
Nac ydy	45.7

Dyweddod y mwyafrif helaeth (80%) o'r busnesau twristiaeth antur sydd wedi eu lleoli o fewn y Parc Cenedlaethol fod y parc yn cael dylanwad positif ar eu busnes. Dyweddod mwy na thraean y gallai eu busnes weithredu y tu allan i'r parc ond heb fod mor lwyddiannus, a dyweddod 15% na fyddai eu busnes yn hyfyw pe na bai o fewn y parc.

Ffigur 3.52. Dylanwad bod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar fusnesau Twristiaeth Antur

Dylanwad bod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar y busnes	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Dylanwad negyddol	4.9
Dim dylanwad	14.6
Peth dylanwad positif, ond dim llawer	31.7
Gallai'r busnes weithredu y tu allan i'r parc ond heb fod mor llwyddiannus	34.1
Dim yn hyfyw y tu allan i'r parc	14.6

Dywedodd y mwyafrif helaeth o ddarparwyr llety (92.3%) fod bod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri yn cael o leiaf beth ddylanwad positif arnynt. Ni ddywedodd yr un o'r darparwyr llety na fedrent weithredu y tu allan i'r parc ond dywedodd bron i 40% na allent weithredu mor llwyddiannus y tu allan i'r parc. Dim ond 2.6% o'r darparwyr llety a ddywedodd fod y Parc Cenedlaethol yn cael dylanwad negyddol arnynt.

Ffigur 3.53. Dylanwad bod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar ddarparwyr llety

Dylanwad bod o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ar y busnes	Canran o atebion y darparwyr llety
Dylanwad negyddol	2.6
Dim dylanwad	5.1
Peth dylanwad positif, ond dim llawer	53.8
Gallai'r busnes weithredu y tu allan i'r parc ond heb fod mor lwyddiannus	38.5
Dim yn hyfyw y tu allan i'r parc	0.0

4.14 Y gallu i siarad Cymraeg

Mae'r mwyafrif o staff (61%) busnesau twristiaeth antur yn deall rhywfaint o'r Gymraeg, ac mae mwy na 43% yn rhugl yn yr iaith. Nid oes gan 39% unrhyw grap ar yr iaith. Roedd gan un o'r busnesau twristiaeth antur sy'n cyflogi nifer fawr o staff 90 o staff sy'n medru'r Gymraeg, ac roedd hyn yn 37% o'r holl staff a fedrai siarad Cymraeg ac felly mae'n dylanwadu'n drwm ar y data. O dynnu'r cwmni hwnnw, y ffigurau yw: Rhugl – 32%; Medru rhywfaint 21%; Dim yn siarad Cymraeg (47%).

Ffigur 3.54. Y gallu i siarad Cymraeg mewn busnesau Twristiaeth Antur

Y gallu i siarad Cymraeg	Canran o atebion y busnesau twristiaeth antur
Rhugl	43.3
Medru rhywfaint	17.6
Dim yn siarad Cymraeg	39.0

Mae'r mwyafrif o staff darparwyr llety (58%) yn deall rhywfaint o'r Gymraeg, ac mae 41% yn rhugl yn yr iaith. Nid yw 42% yn siarad Cymraeg.

Mae data arolwg gweithlu llafur lleol yr Ystadegau Cenedlaethol ar gyfer 2001-2002 yn dangos mai'r ganran o bobl dros 3 mlwydd oed sy'n medru siarad Cymraeg yw 67.2% yn Ynys Môn, 42.2% yng Nghonwy a 79.1% yng Ngwynedd. Y cyfartaledd ar gyfer y tri awdurdod lleol gyda'i gilydd yw 65.8%.

Ffigur 3.55. Gallu staff darparwyr llety i siarad Cymraeg

Y gallu i siarad Cymraeg	Canran o staff darparwyr llety
Rhugl	41.7
Medru rhywfaint	16.1
Dim yn siarad Cymraeg	42.3

4.15 Recriwtio staff

Caiff mwy na 87% o staff busnesau twristiaeth antur eu recriwtio oddi fewn i'r parc cenedlaethol, gyda 45% yn dod o Wynedd a 42% yn dod o Gonwy.

Ffigur 3.56. Recriwtio staff i fusnesau Twristiaeth Antur

Yr ardal lle caiff staff eu recriwtio	Canran o staff sy'n cael eu recriwtio i fusnesau twristiaeth antur
O fewn y parc cenedlaethol – Gwynedd	44.8
O fewn y parc cenedlaethol – Conwy	42.3
Y tu allan i ardal y parc cenedlaethol	12.9

Cafodd mwy na 83% o staff y darparwyr llety a gafodd eu recriwtio yn ystod y 12 mis diwethaf eu recriwtio oddi fewn i'r parc cenedlaethol, gyda 42% yn dod o Wynedd a 41% yn dod o Gonwy.

Ffigur 3.57. Yr ardal lle caiff staff darparwyr llety eu recriwtio

Yr ardal lle caiff staff eu recriwtio	Canran o staff sy'n cael eu recriwtio i fusnesau darparu llety
O fewn y parc cenedlaethol – Gwynedd	42.5
O fewn y parc cenedlaethol – Conwy	41.1
Y tu allan i ardal y parc cenedlaethol	16.5

Dywedodd 37 y cant o fusnesau twristiaeth antur eu bod wedi cael anhawster i recriwtio staff.

Ffigur 3.58. Anhawster i recriwtio staff i fusnesau twristiaeth antur

Anhawster i recriwtio?	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Do	37.5
Naddo	62.5

Dywedodd cyfran fwy, ychydig dros hanner, o'r darparwyr llety eu bod wedi cael anhawster i recriwtio staff.

Ffigur 3.59. Trafferth darparwyr llety i recriwtio staff

Anhawster i recriwtio?	Canran o atebion darparwyr llety
Do	53.4
Naddo	46.6

Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan fusnesau twristiaeth antur am y trafferthion a gafwyd oedd nad oedd gan ymgeiswyr gymwysterau neu brofiad perthnasol i'w busnes hwy. Nododd bron i hanner y busnesau twristiaeth antur un o'r ddau reswm hyn.

Ffigur 3.60. Rhesymau am drafferthion wrth recriwtio i fusnesau twristiaeth antur

Rhesymau am drafferth i recriwtio	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar gymwysterau perthnasol i'r busnes	23.9
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar brofiad perthnasol i'r busnes	23.9
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar sgiliau cyfathrebu cyffredinol	8.7
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar sgiliau busnes cyffredinol	6.5
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar sgiliau rheoli addas	4.3
Diffyg diddordeb/brwdfrydedd yr ymgeiswyr	13.0
Arall	19.6

Y rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan ddarparwyr llety am y trafferthion a gafwyd oedd nad oedd gan ymgeiswyr ddiddordeb neu frwdfrydedd (44%).

Tabl 3.61. Rhesymau am drafferth i recriwtio i fusnesau darparu llety

Rhesymau am drafferth i recriwtio	Canran o atebion darparwyr llety
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar gymwysterau perthnasol i'r busnes	8.0
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar brofiad perthnasol i'r busnes	12.0
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar sgiliau cyfathrebu cyffredinol	2.0
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar sgiliau busnes cyffredinol	2.0
Ymgeiswyr ddim yn meddu ar sgiliau rheoli addas	4.0
Diffyg diddordeb/brwdfrydedd yr ymgeiswyr	44.0
Arall	28.0

Ymhlith busnesau twristiaeth antur, llafar gwlad oedd y dull mwyaf cyffredin o recriwtio (27.6% o'r atebion) ac yna hysbysebion lleol (20.7%).

Tabl 3.62. Dull o recriwtio staff i fusnesau twristiaeth antur

Dull o recriwtio staff	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Llafar Gwlad	27.6
Hysbysebion lleol	20.7
Hysbysebion y tu allan i Ogledd Cymru	12.9
Hysbysebion mewn cyhoeddiadau arbenigol	14.7
Ar-lein trwy wefanau	12.9
Trwy asiantaethau cyflogi	5.2
Arall	6.0

Llafar gwlad oedd y dull mwyaf cyffredin o recriwtio staff ymhlith darparwyr llety (37.8% o'r atebion) ac yna hysbysebion lleol (28.6%).

Tabl 3.63. Dulliau darparwyr llety o recriwtio staff

Dull o recriwtio staff	Canran o atebion darparwyr llety
Llafar Gwlad	37.8
Hysbysebion lleol	28.6
Hysbysebion y tu allan i Ogledd Cymru	8.2
Hysbysebion mewn cyhoeddiadau arbenigol	5.1
Ar-lein trwy wefanau	6.1
Trwy asiantaethau cyflogi	9.2
Arall	5.1

4.16 Cadw staff

Dyweddodd 19 y cant o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd eu bod wedi ei chael yn anodd cadw staff.

Tabl 3.64. Anhawster i gadw staff mewn busnesau twristiaeth antur

Anhawster i gadw staff?	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Do	18.9
Naddo	81.1

Dyweddodd 15.5 y cant o'r darparwyr llety eu bod wedi ei chael yn anodd cadw staff.

Table 3.65. Anhawster cadw staff ymhlith darparwyr llety

Anhawster i gadw staff?	Canran o atebion darparwyr llety
Do	15.5
Naddo	84.5

Ni nododd unrhyw rai o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd fod staff rheoli wedi gadael eu busnes. Y staff a oedd yn fwyaf tebygol o adael busnesau twristiaeth antur oedd unigolion gyda phrofiad perthnasol ym maes eu gweithgaredd busnes. Cyfeiriodd bron i un o bob tri o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd at staff cefnogi cyffredinol.

Tabl 3.66. Safle / cymwysterau staff sy'n gadael busnesau twristiaeth antur

Safle / cymwysterau staff sy'n gadael	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Unigolion sy'n meddu ar gymwysterau perthnasol ym maes gweithgareddau'r busnes	22.7
Unigolion sy'n meddu ar brofiad perthnasol ym maes y gweithgareddau busnes	40.9
Staff rheoli	0.0
Staff cefnogi cyffredinol arall	31.8
Arall	4.5

Yn ôl yr atebion a gafwyd, staff cefnogi cyffredinol oedd y mwyafrif (62.5%) o'r staff a adawodd eu gwaith gyda darparwyr llety. Dim ond 6.3% oedd yn staff rheoli ac

roedd 12.5% yn unigolion a feddai ar gymwysterau perthnasol ym maes eu gweithgaredd busnes.

Tabl 3.67. Safle / cymwysterau staff sy'n gadael darparwyr llety

Safle / cymwysterau staff sy'n gadael	Canran o atebion darparwyr llety
Unigolion sy'n meddu ar gymwysterau perthnasol ym maes gweithgareddau'r busnes	12.5
Unigolion sy'n meddu ar brofiad perthnasol ym maes y gweithgareddau busnes	0.0
Staff rheoli	6.3
Staff cefnogi cyffredinol arall	62.5
Arall	18.8

Y rheswm mwyaf cyffredin pam fod staff yn gadael busnesau twristiaeth antur oedd 'galwadau tymhorol' (23%) ac i 'chwilio am waith tebyg y tu allan i ffiniau'r parc' (19%). Rheswm arall a roddwyd gan 17% o'r busnesau twristiaeth antur a holwyd oedd er mwyn chwilio am waith y tu allan i'r sector.

Tabl 3.68. Y prif reswm pam fod staff yn gadael busnesau twristiaeth antur

Prif reswm	Canran o atebion busnesau twristiaeth antur
Chwilio am waith arall y tu allan i'r sector	17.3
Chwilio am waith tebyg rywle arall o fewn ffiniau'r parc	9.6
Chwilio am waith tebyg y tu allan i ffiniau'r parc	19.2
Wedi eu diarddel	1.9
Ymddeoliad	13.5
Salwch	3.8
Galwadau Tymhorol	23.1
Arall	11.5

Y rheswm a nodwyd amlaf pam fod staff yn gadael darparwyr llety oedd 'galwadau tymhorol' (24%) ac 'i chwilio am waith tebyg y tu allan i'r sector' (22.6%).

Tabl 3.69. Rhesymau am adael swyddi gyda darparwyr llety

Prif reswm	Canran o atebion darparwyr llety
Chwilio am waith arall y tu allan i'r sector	22.6
Chwilio am waith tebyg rywle arall o fewn ffiniau'r parc	6.5
Chwilio am waith tebyg y tu allan i ffiniau'r parc	11.3
Wedi eu diarddel	4.8
Ymddeoliad	11.3
Salwch	4.8
Galwadau Tymhorol	24.2
Arall	14.5

5 Asesiad Effaith Economaidd

5.1 Cefndir

Rhydd y dadansoddiad hwn amcangyfrif o effaith economaidd gyffredinol y sector twristiaeth antur yng Ngogledd Orllewin Cymru (sy'n cynnwys yn y cyd-destun hwn siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn), a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae ein hasesiad yn cynnwys amcangyfrif o effaith economaidd gyffredinol y sector, nid dim ond yr incwm a gafwyd yn uniongyrchol gan y rhai sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Gellir ystyried ei fod yn cynrychioli 'gwerth ychwanegol' twristiaeth antur yn lleol.

Mae'r fethodoleg a ddefnyddir yma'n gyffredinol seiliedig ar y dull lluosogydd Keynesaidd safonol. Yr hyn sy'n allweddol i'r dull hwn yw ei fod yn cymryd i ystyriaeth sgîl-ffeithiau ('*knock-on effects*') ar yr economi lleol y tu hwnt i'r gwariant cychwynnol gan bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored. Gellir ystyried sgîl-ffeithiau neu effeithiau 'cyflyredig' ('*induced*') fel diferiad cyfoeth y tu hwnt i incwm y rheiny sy'n uniongyrchol gymryd rhan yn y sector.

Mae modelau lluosogyddion yn seiliedig ar fwy nag un rownd o wario. Mae pob rownd o wario yn cyfateb i gynnydd mewn incwm yn yr economi. Mae'r rownd gyntaf o wario yn cynnwys effeithiau economaidd uniongyrchol y sector. Yr effeithiau cyflyredig sy'n cyfrif am y rowndiau gwario dilynol. Yr effaith economaidd derfynol, neu gyfanswm y cynnydd mewn incwm, yw cyfanswm yr holl rowndiau gwario.

5.1.1 Rownd Wario Gyntaf

Mae'r arian a ddaw'n uniongyrchol o dwristiaeth antur yn cynnwys gwariant ar weithgareddau awyr agored gan bobl sy'n cymryd rhan a gwariant ar lety gan dwristiaid 'antur'. Fodd bynnag, ni theimlir yr effaith ar yr economi lleol hyd nes fod chwistrelliad arian o'r fath yn cael ei drawsnewid yn gynnydd mewn cyfoeth o ganlyniad i'r gweithredoedd canlynol:

- Gweithredwyr twristiaeth antur yn tynnu cyflogau ac yn talu cyflogau i'r rheiny sy'n gweithio yn y sector.
- Darparwyr llety yn tynnu cyflogau ac yn talu i'w cyflogeion o ganlyniad i'r incwm gan westeion 'antur'.
- Busnesau'n prynu offer ac yn buddsoddi mewn nwyddau o ganlyniad i'r incwm a gânt o weithgareddau awyr agored. Erys cyfran o'r gwariant hwn yn yr economi lleol.

Mae hyn yn cyfateb i'r rownd wario gyntaf sy'n cyfrannu at incwm lleol. Mae'r cynnydd uchod mewn cyfoeth wedi ei gyfrif trwy ddefnyddio ein harolwg o weithredwyr a darparwyr llety.

Gofynnwyd i'r sampl fusnesau amcangyfrif cyfanswm eu gwariant blynyddol ar gyflogau a nwyddau a gwasanaethau. Mae'r cyfansymiau o'n sampl wedi cael eu cydgrynhoi er mwyn amcangyfrif gwariant yr holl weithredwyr a'r darparwyr llety yn yr ardal. Gofynnwyd hefyd i ddarparwyr llety amcangyfrif y gyfran o'u hincwm a ddaw gan westeion 'antur'. Mae'r amcangyfrif o wariant darparwyr lleol wedi cael ei ostwng i gyfateb i ddim ond y gwariant hwnnw sy'n deillio o westeion 'antur'. Ceir yr amcangyfrifon parthed cyflogau a gwariant yn ffigur 4.2.

5.1.2 Rowndiau Gwario Cyflyredig

Caiff y cynnydd mewn incwm a geir yn y rownd gyntaf sgîl-efeithiau ar feysydd eraill yn yr economi:

- Caiff cyfran o'r cyflogau a dderbyniwyd yn y rownd gyntaf ei gwario ar nwyddau a gwasanaethau lleol.
- Mae busnesau sy'n cael budd o'r gwariant gan weithredwyr twristiaeth antur a darparwyr llety hefyd yn talu cyflogau ac yn prynu nwyddau a gwasanaethau.
- Mae twristiaid sy'n ymweld â'r ardal er mwyn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored hefyd yn prynu nwyddau a gwasanaethau yn ystod eu harhosiad nad ydynt yn gysylltiedig â'r gweithgareddau.

Nid yw'r uchod yn cael eu cyfleu'n llawn yng nghanlyniadau ein harolwg. Gellir ystyried y gwariant cyflyredig fel y gyfran o'r cynnydd uniongyrchol mewn incwm a gaiff ei wario yn economi Gogledd Orllewin Cymru ac Eryri. Er mwyn amcangyfrif hyn, rhaid i ni yn gyntaf gael ffigur ar gyfer incwm defnyddiadwy o'r incwm cychwynnol (incwm ar ôl treth). Yna amcangyfrifir faint o'r incwm defnyddiadwy hwn sy'n mynd yn ôl i'r economi lleol. Eglurir hyn yn llawnach yn 4.1.3.

Mae'r nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau a brynir gan dwristiaid antur yn cynnwys pethau fel gwariant ar fwyd diod a chludiant yn yr ardal leol. Yma eto, ni ellir amcangyfrif hyn ar sail canlyniadau ein harolwg. Deillia'r gwariant uniongyrchol hwn o amcangyfrifon y Bwrdd Croeso parthed gwariant twristiaid yng Ngogledd Cymru. Cyflwynir yr amcangyfrif terfynol fel 'gwariant twristiaid arall' yn ffigur 4.2.

Rydym wedi dangos sut y mae'r gwariant cychwynnol wedi arwain at rownd gyflyredig o wario. Gellir ystyried yr 'ail rownd' yma fel cynnydd newydd mewn incwm. Unwaith eto, mae'r cynnydd mewn incwm yn cyfateb i'r lefel o incwm defnyddiadwy. Erys cyfran o'r incwm defnyddiadwy hwnnw yn yr economi lleol. Mae'r ail rownd wedi sbarduno trydedd rownd o gynnydd mewn incwm ac mae'r broses yn parhau.

5.1.3 Colledion


Ymhob rownd o wariant mae'r cynnydd a geir mewn allbwn ac incwm yn mynd yn llai wrth i arian gael ei 'gollu' o economi'r ardal leol. Mae pedair ffynhonnell colledion o'r fath:

- Ceir lleihad mewn trosglwyddiad incwm yn sgîl trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- Mae cyfran o wariant busnesau ar gyflogau, nwyddau a gwasanaethau'n digwydd y tu allan i'r economi lleol.
- Mae cyflogeion lleol yn cynilo cyfran o'u cyflogau.
- Mae cyfran o wariant cyflogeion lleol ar nwyddau a gynhyrchir y tu allan i'r economi lleol.

Teimlir sgîl-efeithiau hyd nes fod colledion yn arwain at beidio â chael unrhyw gynnydd mewn incwm yn y rowndiau gwario. Gelwir y gymhareb ar gyfer y gwariant cychwynnol a'r cynnydd mewn incwm ar ôl pob rownd wario yn effaith luosog.

Mewn unrhyw asesiad effaith economaidd, mae'r effaith gyffredinol yn dibynnu ar faint y mewnbwn cychwynol ac ar ba mor sylweddol yw'r colledion.

Ffigur 4.1: Cyfanswm Effeithiau Economaidd



5.2 Y Model

Mae'r model a ddefnyddiwyd ar gyfer mesur effaith economaidd y sector gweithgareddau awyr agored yn dilyn, i raddau helaeth, y dull a ddefnyddiwyd gan Huggins a Cooke mewn astudiaeth o effaith Prifysgol Caerdydd ar yr ardal leol². Gellir cymhwyso'r fethodoleg hon ar gyfer unrhyw asesiad o effaith economaidd. Fodd bynnag, er mwyn cymhwyso'r fformwla i ardal Gogledd Orllewin Cymru ac Eryri, mae'r gwerthoedd gogyfer â cholledion (cyfraddau treth, cyfraddau cadw a chyfraddau cynilo) wedi cael eu dethol er mwyn adlewyrchu nodweddion penodol yr ardal.

Mae cam cyntaf y model yn cynnwys cyfrifiad o'r chwistrelliad arian cychwynol. Y chwistrelliad cyntaf yw swm incwm llafur, L , a'r gwasanaethau a nwyddau a brynir, G , gan yr holl fusnesau a'r darparwyr llety:

Hafaliad 1: $Y_1 = L + G$

Lle bo: $L = L_B + L_A$

$G = G_B + G_A$

(Mae B isysgrif yn dynodi busnesau gweithgareddau awyr agored ac mae A isysgrif yn dynodi darparwyr llety)

Mae effaith leol gros y rownd gyntaf yn cynhyrchu lefel o incwm defnyddiadwy ar ôl treth. Cymerir fod treth yn 25% ar gyfartaledd a bod TAW yn 17.5%:

Hafaliad 2: $D_1 = (1-t)(Y_1 - vG)$

Lle bo: t yn dynodi lefel treth incwm a v yn dynodi cyfradd TAW.

O ganfod lefel yr incwm defnyddiadwy D_1 medrwn gyfrifo effaith leol gros yr ail rownd. Caiff D_1 ei leihau yn ôl y swm o'r incwm a gaiff ei gynilo a'r gwariant a wneir y tu allan i'r ardal leol. Rhagdybiwn bod 90% o incwm defnyddiadwy yn cael ei ddefnyddio a bod 10% yn cael ei gynilo, sy'n rhoi tuedd ffiniol i brynu o 0.9%. Mae

² Huggins, Robert a Cooke, Phillip, *The Economic Impact of Cardiff University; innovation learning and job creation*. Canolfan Astudiaethau Pellach, Prifysgol Cymru, Caerdydd 1996.

hwn yn amcangyfrif rhesymol sy'n seiliedig ar yr arolwg o wariant teuluoedd. Gelwir y gwariant ar nwyddau a gwasanaethau lleol yn ffactor cadw.

Mae ein ffactorau cadw yn wahanol ar gyfer Eryri a Gogledd Orllewin Cymru. Yn naturiol, bydd cyfran uwch o wariant trigolion a busnesau yn yr ardal economaidd lai ar nwyddau a gwasanaethau a gynhyrchir y tu allan i'r economi lleol. Felly, cedwir llai o gyfoeth o fewn yr economi llai rhwng y naill rownd wario a'r llall. Mae cyfran o wariant yn 'treiddio' o economi Eryri i economi Gogledd Cymru.

Mabwysiadir cyfradd gadw o 0.32 ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru ar sail astudiaethau isranbarthol blaenorol yng Nghymru a chyfradd o 0.15 ar gyfer Eryri yn deillio o sylfaen gymharol economi Eryri.

O'r holl incwm defnyddiadwy, felly, yng Ngogledd Orllewin Cymru, defnyddir 90% ohono ac mae 32% o'r gwariant yn aros o fewn yr economi lleol, ac yn Eryri, defnyddir 90% a dim ond 15% o'r gwariant sy'n aros o fewn yr economi lleol.

Yn olaf, yn yr ail rownd, cyflwynwn hefyd y gwariant gan dwristiaid 'antur' ar nwyddau a gweithgareddau nad ydynt yn gysylltiedig ag unrhyw weithgareddau.

Hafaliad 3:
$$Y_2 = Z + m\mu D_1$$

Lle bo: Z yn dynodi gwariant arall gan dwristiaid. m yw'r duedd ffiniol i wario, ac μ yw'r ffactor cadw.

Unwaith eto, mae'r effaith leol gros yn llai yn sgîl trethi:

Hafaliad 4:
$$D_2 = (1-t)(1-v)Y_2$$

Mae'r broses yn parhau yn y drydedd rownd:

Hafaliad 5:
$$Y_3 = m\mu D_2$$

Ar ôl pob rownd wario mae'r cynnydd a geir mewn incwm yn mynd yn llai ac yn llai. Mae'r broses yn parhau hyd nes bo'r cynnydd yn yr incwm yn mynd bron yn ddim.

5.3 Cymhwyso'r Model

Cynhyrchodd ein hymchwil y canlyniadau allweddol canlynol ar gyfer Eryri a Gogledd Orllewin Cymru:

Ffigur 4.2:

		Eryri	Gogledd Orllewin Cymru
Busnesau Awyr Agored			
	Gwariant Cyflog	£ 8,267,359	£ 15,791,985
	Gwariant ar Nwyddau a Gwasanaethau	£ 1,560,201	£ 6,119,284
Darparwyr Llety			
	Gwariant Cyflog	£ 20,177,406	£ 36,410,969
	Gwariant ar Nwyddau a Gwasanaethau	£ 4,275,643	£ 13,669,940
Gwariant arall gan Dwrystiaid		£ 25,711,257	£ 41,929,127

Wrth fewnbynnu'r canlyniadau hyn, cymhwyswyd y model dros 9 rownd, a chyfanswm yr effaith economaidd yw swm y 9 ffigur gogyfer â'r effaith leol gros.

	Eryri	Gog Orll Cymru
rownd 1 (cychwynnol)	£ 34,280,610	£ 71,992,179
rownd 2	£ 23,847,195	£ 57,291,590
rownd 3	£ 1,991,986	£ 10,209,361
rownd 4	£ 166,393	£ 1,819,308
rownd 5	£ 13,899	£ 200,599
rownd 6	£ 1,161	£ 57,773
rownd 7	£ 97	£ 10,295
rownd 8	£ 8	£ 1,835
rownd 9	£ 1	£ 327
chwistrelliad cychwynnol	£ 34,280,610	£ 71,992,179
incwm cyflyredig	£ 26,020,740	£ 69,591,088
CYFANSWM EFFAITH	£ 60,301,349	£ 141,583,266
LLUOSOGYDD	1.76	1.97

5.4 Dadansoddi'r Canlyniadau

Gellir dehongli'r canlyniadau fel a ganlyn:

- **Mae'r sector gweithgareddau awyr agored yn ychwanegu £60miliwn at economi Eryri. Mae pob punt a gaiff ei gwario ar weithgareddau awyr agored a llety yn arwain at £0.76 yn ychwanegol i'r economi lleol.**
- **Mae'r sector gweithgareddau awyr agored yn ychwanegu £140miliwn at economi Gogledd Orllewin Cymru. Mae pob punt a gaiff ei gwario ar weithgareddau awyr agored a llety yn arwain at £0.76 yn ychwanegol i'r economi lleol.**
- **Mae 42.6% o'r effaith gyffredinol ar economi Gogledd Orllewin Cymru i'w themlo yn Eryri.**
- **O roi hynny yn ei gyd-destun, yn ôl amcangyfrifon Bwrdd Croeso Cymru £1795 miliwn oedd cyfanswm y gwariant gan dwristiaid yng Nghymru gyfan yn 2002, a £535miliwn oedd y swm yng Ngogledd Cymru.**

Mae'r canlyniadau hyn yn cadarnhau pwysigrwydd y sector gweithgareddau awyr agored i'r economi yn Eryri ac yng Ngogledd Orllewin Cymru yn gyffredinol. Mae'r effaith economaidd gyffredinol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i wariant ar y gweithgareddau eu hunain, ac mae hynny'n cyfiawnhau dadansoddiad o'r math hwn. Mae sgîl-ffeithiau lleol yn bwysig iawn. Mae'r lluosogyddion yn rhesymol ar gyfer model is-genedlaethol.

Er bod y rhan fwyaf o weithgareddau awyr agored yn digwydd yn ardal Eryri ei hun (74.7% o'r busnesau), mae'r effaith economaidd ehangach bron ddwywaith gymaint â'r effaith ar economi Eryri. Mae hyn oherwydd fod y rhan fwyaf o'r effaith ariannol gychwynnol yn deillio o wariant twristiaid 'antur' ar lety a nwyddau a gwasanaethau eraill. Mae llawer o'r rheiny sy'n mwynhau gweithgareddau oddi fewn i Eryri yn aros mewn llety y tu allan i'r parc cenedlaethol. Yn ogystal, mae llawer o wariant busnesau sy'n gweithio o fewn Eryri yn mynd i gyflogeion a busnesau sydd y tu allan i'r parc cenedlaethol. Mae dosbarthiad daearyddol yr effaith economaidd, felly, yn rhannol ddeillio o'r duedd naturiol i incwm ardal leol 'dreiddio' i'r economi ehangach.

5.5 Effaith o ran Cyflogaeth

Gellir hefyd ddatblygu asesiad tebyg o effeithiau'r sector twristiaeth antur o ran cyflogaeth yn ardal Eryri a Gogledd Orllewin Cymru. Deillia'r amcangyfrifon canlynol o'r model uchod sy'n seiliedig ar luosogydd. Cyfanswm nifer y swyddi a grëir yw cyfanswm y staff a gyflogir yn uniongyrchol yn y diwydiant twristiaeth antur a'r swyddi anuniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r newid allbwn cyflyredig. Felly medrwn sôn am gyfanswm y gyflogaeth yng nghyd-destun effeithiau cyflogaeth uniongyrchol ac effeithiau cyflyredig cyflogaeth anuniongyrchol.

Mae effeithiau cyflogaeth uniongyrchol wedi eu cyfrifo o'n sampl o weithredwyr twristiaeth antur a darparwyr llety. Mae'r gyflogaeth gyflyredig yn deillio o'n amcangyfrif o effeithiau allbwn cyflyredig, Mae cymhareb ar gyfer allbwn-cyflogaeth wedi ei datblygu ar sail ffynonellau data cenedlaethol. Deillia cyfanswm y gyflogaeth gyflyredig o'r allbwn cyflyredig a'r gymhareb allbwn-cyflogaeth. Dangosir y canlyniadau mwyaf allweddol isod.

	Eryri	Gog Orll Cymru
Busnes Awyr Agored		
Cyfanswm Swyddi heb fod yn rhai tymhorol	1291	1728
Swyddi Llawn Amser	872	1167
Swyddi Rhan Amser/Llawrydd	419	560
Swyddi Tymhorol	1586	2122
Accommodation Providers		
Cyfanswm Swyddi heb fod yn rhai tymhorol	1178	2139
Swyddi Llawn Amser	689	1251
Swyddi Rhan Amser/Llawrydd	489	888
Swyddi Tymhorol	394	714
Induced Effect Employment		
Cyfanswm swyddi	1016	1749
Swyddi Llawn Amser	617	1063
Swyddi Rhan Amser	399	686

Cyfanswm yr effaith o ran cyflogaeth yw swm yr effeithiau uniongyrchol ac effeithiau cyflyredig y sector twristiaeth antur. Gellir ystyried effeithiau uniongyrchol cyflogaeth fel y swyddi sy'n gysylltiedig ag allbwn lleol gros y rownd gyntaf. Gellir ystyried yr effeithiau cyflyredig fel y swyddi sy'n gysylltiedig â rowndiau 2 – 9. Er mwyn ei gwneud yn haws cyfrifo, rydym wedi rhagdybio nad yw'r gyflogaeth gyflyredig yn dymhorol ei naws.

	Eryri	Gog Orll Cymru
Swyddi Llawn Amser	2178	3481
Swyddi Rhan Amser/Llawrydd	1307	2134
Swyddi Tymhorol	1980	2836
Pob swydd heb fod yn dymhorol	3485	5616
Lluosogydd Cyflogaeth	1.41	1.45
% o Gyflogaeth yr Ardal	DA	5.998%

Cyflogaeth Sector a Chyfran Cyflogaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru

	Gogledd Orllewin Cymru	
	%	Cyf Swyddi
Twristiaeth Antur (amcangyfrif)	5.44	5612
Amaethyddiaeth a Physgota	4.20	4339
Ynni a Dŵr	2.59	2675
Gweithgynhyrchu	10.34	10669
Adeiladu	9.14	9436
Dosbarthu, Gwestai a Bwyta	23.08	23827
Cludiant a Chyfathrebu	5.44	5615
Bancio, Cyllid ac Yswiriant	8.05	8314
Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Addysg ac Iechyd	29.39	30343
Gwasanaethau Eraill	7.55	7796
Cyfanswm Gwasanaethau	73.42	75792

Ffynhonnell: Nomis, Arolwg Gweithlu 2003

Mae'r prif ganlyniadau fel a ganlyn:

- Mae'r diwydiant twristiaeth antur yn cyflogi 5465 o bobl, bob blwyddyn, yn ardal Eryri ac 8451 o bobl yng Ngogledd Orllewin Cymru
- Mae twristiaeth antur yn darparu 2178 o swyddi llawn amser yn uniongyrchol yn Eryri a 3481 o swyddi llawn amser yn uniongyrchol yng Ngogledd Orllewin Cymru.
- Cyfanswm y swyddi heb fod yn rhai tymhorol a grëir o ganlyniad i'r diwydiant yw 3485 yn Eryri a 5616 yng Ngogledd Orllewin Cymru.
- Mae hyn yn cyfateb i fwy na 5% o'r holl gyflogaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru, o'i gymharu â 4.2% ar gyfer amaeth a 10.3% ar gyfer gweithgynhyrchu.
- Am bob 10 o swyddi a grëir o ganlyniad uniongyrchol i dwristiaeth antur, crëir 4.5 o swyddi pellach yng Ngogledd Orllewin Cymru.

Yng Ngogledd Orllewin Cymru, mae bron i 60% o'r swyddi ym maes twristiaeth antur yn rhai tymhorol neu ran amser. Mae hyn yn cymharu â 40.7% ar gyfer pob diwydiant yn gyffredinol.

5.6 Casgliadau

Mae'r sector twristiaeth antur yn gwneud cyfraniad sylweddol i'r economi lleol yng Ngogledd Orllewin Cymru yn ariannol, yn sgîl yr arian a ddaw o wariant twristiaid antur, ac o ran y cyfleoedd gwaith a grëir yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol o ganlyniad i'r gweithgareddau hyn. Ymhellach, mae natur y gweithgareddau, yn arbennig y modd y maent yn hyrwyddo byw'n iach a chynnaladwyedd amgylcheddol, yn rhoi delwedd ddeniadol i Ogledd Orllewin Cymru, sy'n cynnwys Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, ac mae gan hynny, yn ei dro, y potensial i greu manteision economaidd a chymdeithasol pellach nad ydynt wedi eu cynnwys oddi fewn i ffiniau'r astudiaeth hon.

Mae'r gyflogaeth net ar draws y sector yng ngogledd orllewin Cymru wedi tyfu yn ystod y 12 mis diwethaf ac y mae'n argoeli'n addawol y bydd hynny'n parhau yn y 12 mis nesaf. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd y twf wedi ei wasgaru'n hafal ar draws pob maes yn y sector a rhagwelir hefyd beth lleihad mewn cyflogaeth. Awgryma hyn fod busnesau mewn rhai rhannau o'r sector yn parhau mewn sefyllfa wan ac efallai y bydd arnynt angen cefnogaeth bellach i oresgyn rhai o'r cyfyngiadau neu'r rhwystrau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Roedd y meysydd penodol ar gyfer cefnogaeth a nodwyd gan y busnesau a holwyd yn ystod yr astudiaeth hon yn cynnwys marchnata cynnyrch a gwasanaethau, y cyfle i rwydweithio a rhannu profiadau a chefnogaeth gyda hyfforddiant TG. Er bod cefnogaeth ar gael eisoes yn y meysydd hyn maent yn aml iawn wedi eu hanelu at y diwydiant twristiaeth yn gyffredinol ac nid ydynt bob amser yn mynd i'r afael â rhai o ofynion penodol y sector twristiaeth antur o fewn y diwydiant.

Tynn yr arolwg sylw at nifer o fylchau o ran sgiliau ymhlith y rheiny sy'n cael eu cyflogi ar hyn o bryd yn arbennig sgiliau TG, fel y nodir uchod, ynghyd â sgiliau eraill sector-berthnasol. Ymddengys hefyd fod diffyg dealltwriaeth ymhlith cyflogeion parthed y cyfleoedd hyfforddi sydd ar gael yn lleol yn ogystal â diffyg dealltwriaeth ymhlith darparwyr hyfforddiant ynglŷn ag anghenion datblygu sgiliau busnesau.

Ymddengys, felly, y byddai annog datblygiad rhwydwaith busnesau twristiaeth antur, yn rhoi llwyfan ar gyfer gwireddu a mynd i'r afael â llawer o'r materion datblygu busnes hyn.

Mae'n amlwg felly fod twristiaeth antur, fel rhan benodol o'r diwydiant twristiaeth yn ehangach, eisoes yn cyfrannu llawer at economi lleol gogledd orllewin Cymru a hynny mewn modd cynaliadwy ac amgylcheddol gyfeillgar. Mae ysblander amgylchedd naturiol gogledd orllewin Cymru yn cynnig cyfle unigryw i ddatblygu diwydiant twristiaeth antur o safon fyd-eang. Fodd bynnag, mae sawl maes o fewn y sector sydd yn parhau heb eu datblygu'n llawn ac sydd angen cefnogaeth bellach o sawl cyfeiriad er mwyn sicrhau bod llawn botensial y sector yn cael ei wireddu.